# ADRODDIAD YMGYNGHORI

## Cynnig i Ad-drefnu'r Ddarpariaeth Addysg Gatholig yn Sir y Fflint






- **Cau Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Anthony yn Saltney erbyn 31 Awst 2026**
- **Uno Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant David yn yr Wyddgrug, Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir y Santes Fair yn y Fflint ac Ysgol Uwchradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Richard Gwyn yn y Fflint**
- **Byddai'r uno'n golygu y byddai'r ysgolion unigol yn cau erbyn 31 Awst 2026 ac ysgol unedig newydd, Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir 3-18 oed, cyfrwng Saesneg, gydag enw a rhif ysgol newydd, yn agor ym mis Medi 2026, gan weithredu dros y tri safle presennol.**
- **Symud yr ysgol newydd i'r adeiladau newydd o 1 Medi 2029**

**Cyfnod Ymgynghori: Wedi dechrau ar 3 Mehefin 2025 a dod i ben hanner nos 18 Gorffennaf 2025**

# CYNNWYS

**1. Cyflwyniad** ... **3**
**2. Y Cynnig** ... **3**
2.1. Manylion allweddol ... 3
2.2. Eglurhad o Gostau Cludiant Posibl ... 4
**3. Y Broses Ymgynghori** ... **4**
3.1. Cyn yr Ymgynghoriad ... 4
3.2. Cymeradwyaeth y Cabinet i Ymgynghori ... 5
3.3. Cyfnod Ymgynghori ... 5
3.4. Dogfennau a Chyhoeddi ... 5
3.5. Ymgyngoreion ... 6
3.6. Digwyddiadau ... 6
3.7. Dewisiadau i Ymgysylltu ... 7
3.8. Ffurflenni Ymateb ... 7
**4. Canlyniadau'r Ymgynghoriad** ... **8**
4.1. Dull Cyfathrebu ... 8
4.2. Canlyniadau'r Ffurflen Ymateb ... 8
4.3. Themâu Ffurflenni Ymateb ... 11
4.4. Effaith ar y Gymraeg ... 30
4.5. Ymateb Disgyblion Ysgol ... 34
4.6. Ymateb Estyn ... 36
**5. Camau Nesaf** ... **43**
**6. Ffigurau a Thablau** ... **44**
**7. Atodiadau** ... **45**

Mae copïau caled o'r adroddiad ymgynghori hefyd ar gael ac os bydd arnoch angen copi ar bapur neu ar ffurf fformat gwahanol fel Braille neu brint bras, neu os oes arnoch angen cymorth i ddehongli'r ddogfen mewn iaith arall, cysylltwch â'r Tîm Moderneiddio Ysgolion ar 01352 704014, 01352 704018 neu 01352 702188, neu e-bostiwch CatholicEducationConsultation@flintshire.gov.uk.

# 1. Cyflwyniad

1. Yn ddiweddar, cyhoeddodd Esgobaeth Gatholig Wrecsam (*yr Esgobaeth*) a Chyngor Sir y Fflint (*y Cyngor*), gynnig i ad-drefnu'r ddarpariaeth addysg Gatholig yn Sir y Fflint.

2. Ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori statudol, ac yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018 (*y Cod*), bydd yr adroddiad hwn yn:

   - rhoi crynodeb o'r materion a godwyd gan y rhai yr ymgynghorwyd â nhw;
   - ymateb i'r rhain trwy roi eglurhad, rhoi gwelliant i'r cynnig neu wrthod y pryderon, gyda rhesymau i gefnogi;
   - amlinellu ymateb Estyn i'r ymgynghoriad yn llawn; ac
   - ymateb i ymateb Estyn trwy roi eglurhad, rhoi gwelliant i'r cynnig neu wrthod y pryderon, gyda rhesymau i gefnogi.

3. O dan y Cod, fe all yr adroddiad hwn hefyd wneud argymhellion ynglŷn â sut i symud ymlaen, megis;

   - cyhoeddi'r cynigion yr ymgynghorwyd â nhw, gydag unrhyw addasiadau priodol;
   - rhoi'r gorau i'r cynigion a chadw'r sefyllfa bresennol; neu
   - ail-lunio'r cynigion yn sylweddol ac ymgynghori eto.

4. Dylai'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ystyried y canlyniadau o'r broses ymgynghori cyn penderfynu ar unrhyw argymhelliad sy'n ymwneud â'r cynnig.

# 2. Y Cynnig

5. Fe geisiodd yr Esgobaeth a'r Cyngor farn budd-ddeiliaid allweddol ar gynnig i:

   - Gau Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Anthony yn Saltney erbyn 31 Awst 2026.
   - Uno Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant David yn yr Wyddgrug, Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir y Santes Fair yn y Fflint ac Ysgol Uwchradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Richard Gwyn yn y Fflint.
   - Byddai'r uno'n golygu y byddai'r ysgolion unigol yn cau erbyn 31 Awst 2026 ac ysgol unedig newydd, Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir 3-18 oed, Cyfrwng Saesneg, gydag enw a rhif ysgol newydd, yn agor ym mis Medi 2026, gan weithredu dros y tri safle presennol.
   - Symud yr ysgol newydd i'r adeiladau newydd o 1 Medi 2029.

## 2.1. Manylion allweddol

6. Bydd yr ysgol newydd yn cael ei lleoli ar y safle presennol sy'n cael ei rhannu gan Ysgol y Santes Fair a Sant Richard Gwyn, oddi ar Albert Ave, y Fflint, CH6 5JZ.

7. Capasiti cyffredinol yr ysgol fydd 1185 o ddisgyblion llawn amser.

8. Bydd y nifer hwn yn cynnwys 315 o ddisgyblion cynradd llawn amser a 750 o ddisgyblion uwchradd llawn amser. Darperir 120 o lefydd chweched dosbarth ar gyfer disgyblion rhan amser.

9. Darperir 45 o lefydd blwyddyn meithrin ar gyfer disgyblion rhan amser.

10. At ddibenion derbyniadau ysgol, y nifer a gaiff eu derbyn fydd 45 mewn i grŵp blwyddyn Derbyn ar gyfer disgyblion llawn amser, yn ogystal â 150 o ddisgyblion llawn amser a gaiff eu derbyn i Flwyddyn 7.

11. Y corff llywodraethu fydd yn gyfrifol am bennu a gweinyddu’r polisi sy’n ymwneud â derbyn disgyblion i’r ysgol.

12. Bydd yr adeilad yn cael ei adeiladu yn unol â Bwletinau Adeiladu priodol a gofynion Di-garbon Net.

13. Bydd Anghenion Addysg Arbennig (AAA) yn cael eu hystyried yn ystod y broses datblygu dyluniad.

### 2.2. Eglurhad o Gostau Cludiant Posibl

14. Gwneir trefniadau Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol yn unol â Pholisi Cludiant Ysgol y Cyngor.

https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Schools/School-Transport-Application.aspx

15. Dangosodd yr Asesiad o’r Effaith ar Gludiant petai pob disgybl o Sant Anthony yn gymwys am gludiant o'r cartref i'r ysgol i’w ysgol gynradd Gatholig arall agosaf, cyfanswm y gost fyddai £55,000.

15.1. Mae’r polisi’n nodi “bydd angen tystiolaeth addas o ymlyniad wrth ffydd yr ysgol megis tystysgrif bedydd neu lythyr gan offeiriad” ac os yw hyn yn ofyniad, gallai ffigur Sant Anthony gael ei leihau i tua £11,000 gan fod 20% o’r disgyblion yn Gatholigion mewn gair a gweithred.

16. Dangosodd yr Asesiad o’r Effaith ar Gludiant petai pob disgybl o Sant David yn gymwys am gludiant o'r cartref i'r ysgol i’w ysgol gynradd Gatholig arall agosaf, cyfanswm y gost fyddai £157,000.

16.1. Gan ddefnyddio’r un egwyddor ag ar gyfer Sant Anthony, mae 51.7% o ddisgyblion yn Sant David yn Gatholigion mewn gair a gweithred, ac felly gallai cyfanswm y gost o gludo’r disgyblion yma i’w ysgol gynradd Gatholig arall agosaf gael ei leihau i tua £80,968.

## 3. Y Broses Ymgynghori

### 3.1. Cyn yr Ymgynghoriad

17. Cafodd y cynnig ei ddatblygu dros gyfnod o 18 mis ar ôl trafodaethau rhwng yr Esgobaeth, y Cyngor, a Chadeiryddion y Cyrff Llywodraethu a Phenaethiaid ym mhob un o’r chwe ysgol Gatholig yn y Sir.

18. Yn unol â’r Cod, pan mae’r cynnig yn golygu ad-drefnu ysgolion y caiff eu tir a/neu adeiladau eu cadw mewn ymddiriedolaeth, neu sydd â chymeriad crefyddol dynodedig, roedd angen ymgynghoriad gyda'r ymddiriedolwyr a/neu'r corff crefyddol priodol cyn cyhoeddi'r ddogfen ymgynghori.

19. Ni ddaeth opsiynau newydd i’r amlwg yn ystod yr ymgynghoriad gydag ymddiriedolwyr ac fe gefnogwyd y dewis a ffefrir.

### 3.2. Cymeradwyaeth y Cabinet i Ymgynghori

20. Ddydd Mawrth 15 Ebrill 2025, penderfynodd Cabinet y Cyngor:

- Rhoi cymeradwyaeth i ddechrau ymgynghori gyda budd-ddeiliaid perthnasol ar y cynnig i gau Ysgol Gynradd Gatholig Sant Anthony, Ysgol Gynradd Gatholig Sant David, Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair ac Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn, ac agor Ysgol Gatholig 3-18 oed newydd i ddarparu darpariaeth ddysgu i’r gymuned Gatholig.

### 3.3. Cyfnod Ymgynghori

21. Fe agorodd yr ymgynghoriad ddydd Mawrth 3 Mehefin 2025 ac fe gaeodd am hanner nos, nos Wener 18 Gorffennaf 2025. Roedd hyn yn gadael 45 diwrnod i dderbyn ymatebion, ac mae 33 o’r rhain yn ddyddiau ysgol.

### 3.4. Dogfennau a Chyhoeddi

22. Cynhyrchwyd y dogfennau canlynol, yn Gymraeg a Saesneg, i ymgyngoreion eu hystyried a’u galluogi nhw i gymryd rhan yn llawn yn y broses ymgynghori.

- Ymgynghoriad Statudol
- Trosolwg o’r Ymgynghoriad Statudol
- Dogfen Ymgynghori Plant a Phobl Ifanc
- Asesiad o’r Effaith ar y Gymraeg
- Asesiad o’r Effaith ar y Gymuned
- Asesiad o’r Effaith ar Gludiant
- Asesiad o Effaith Integredig
- Ffurflen Ymateb

23. Er mwyn i blant a phobl ifanc gymryd rhan yn y broses ymgynghori, cafodd eu dogfen ymgynghori nhw ei dylunio gan ddefnyddio graffig a thestun oedd yn briodol i’w hoedran.

24. Wedi’i gynnwys yn nogfen y plant oedd fersiwn hawdd ei ddefnyddio o’r ffurflen ymateb er mwyn i blant a phobl ifanc rannu eu barn ar y cynnig.

25. Cafodd yr holl ddogfennau eu cyhoeddi’n electronig ar wefan y Cyngor.

26. Fe dderbyniodd y chwe ysgol Gatholig becyn ymgynghori oedd yn cynnwys copi papur o bob dogfen. Fe alluogodd hyn bobl i weld y wybodaeth os nad oedd modd iddynt gael mynediad at y fersiynau electronig.

27. Roedd copïau papur a fersiynau eraill (print bras, Braille ac ati) hefyd ar gael ar gais.

28. Mae'r holl ddogfennau ar gael yn yr adran Moderneiddio Ysgolion ar wefan Cyngor Sir y Fflint drwy'r ddolen ganlynol:

    https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Schools/School-Modernisation-Related/Home.aspx

## 3.5. Ymgyngoreion

29. Pan agorodd yr ymgynghoriad ar 3 Mehefin 2025, cafodd y budd-ddeiliaid allweddol wybod trwy gyfrwng e-bost.

30. Roedd yr e-bost yn cynnwys dolen i'r dudalen ar wefan y Cyngor lle'r oedd modd gweld y dogfennau a ble'r oedd y ffurflen ymateb.

31. Mae rhestr o'r budd-ddeiliaid allweddol ar gael yn Atodiad A.

## 3.6. Digwyddiadau

32. Gwahoddwyd staff ym mhob ysgol oedd yn ymwneud â'r cynnig i fynychu digwyddiad ymgynghoriad penodol gydag uwch aelodau o'r Esgobaeth a'r Cyngor.

33. Cynhaliwyd y pedwar digwyddiad staff ddydd Mawrth 18 Mehefin 2025 a chawsant eu cynnal dros y we.

34. Yn ychwanegol, fe wahoddwyd Llywodraethwyr y chwe ysgol Gatholig i fynychu sesiynau tebyg, ond cawsant eu grwpio fel dwy ysgol fesul digwyddiad.

35. Cynhaliwyd dau o sesiynau'r Llywodraethwyr ddydd Mawrth 17 Mehefin 2025, ac fe gynhaliwyd trydydd ar ddydd Mercher 16 Gorffennaf 2025. Cynhaliwyd y digwyddiadau yma dros y we hefyd.

36. Ni chynhaliwyd unrhyw ddigwyddiadau ymgynghori cyhoeddus.

### 3.6.(a) Plant a Phobl Ifanc

37. Cafodd sesiynau gyda chynrychiolwyr disgyblion o'r chwe ysgol Gatholig eu cyflwyno yn ystod y cyfnod ymgynghori.

38. Yn ystod sesiynau'r disgyblion, cyflwynodd Swyddogion gyflwyniad byr yn crynhoi'r cynnig, gofyn cwestiynau i ysgogi trafodaeth a chofnodi barn y cyfranogwyr o ran y cynnig (gweler Atodiad D).

39. Cynhaliwyd sesiwn hefyd gyda Fforwm Ieuenctid Sir y Fflint (23 Mehefin 2025), sydd yn cynnwys cynrychiolwyr o Ysgolion Uwchradd Sir y Fflint. Roedd y sesiwn yn cynnwys cyflwyniad am y cynnig, trafodaethau grŵp a nodi'r farn a roddwyd (Atodiad D.7)

### 3.7. Dewisiadau i Ymgysylltu

40. Fe allai’r ymgyngoreion ddewis cyflwyno copi o’r ffurflen ymateb yn y ffyrdd canlynol:

- Ar-lein drwy ddolen a oedd ar gael yn y ddogfen ymgynghori ac ar wefan y Cyngor;
- Ar-lein drwy god QR a oedd hefyd ar gael yn y ddogfen ymgynghori ac ar wefan y Cyngor;
- Ar-lein drwy gyfeiriad e-bost arbennig;
- Drwy bostio copi papur mewn i ‘flwch post’ arbennig, wedi’i leoli ym mhob un o’r chwe ysgol Gatholig;
- Drwy bostio copi papur yn uniongyrchol i’r Cyngor yn y cyfeiriad a nodwyd yn y ddogfen ymgynghori;
- Cyflwyno copi â llaw i swyddfa’r Cyngor.

41. Cafodd pobl hefyd eu hannog i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad drwy:

- Gyflwyno sylw, ymholiad neu gais drwy’r cyfeiriad e-bost arbennig neu yn y post;
- Gofyn am wybodaeth dros y ffôn.

42. Croesawyd gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg, ac fe roddwyd ymatebion yn yr un iaith heb oedi.

### 3.8. Ffurflenni Ymateb

43. Ar y ffurflen ymateb (Atodiad B) bu’n rhaid i ymgyngoreion nodi a oeddynt yn cytuno neu’n anghytuno â phob agwedd o’r cynnig. Yn ogystal, roedd cyfle iddynt:

- roi sylw yn y blwch sylwadau er mwyn i ymatebwyr gael rhoi adborth mwy manwl ar eu dewisiadau,
- nodi â pha ysgol/ysgolion yr oeddynt yn gysylltiedig, ac
- ym mha gapasiti maen nhw’n ymateb (e.e. rhiant/gofalwr, disgybl, Llywodraethwr, staff, aelod o’r gymuned ac ati).

44. Roedd rhannau eraill yn y ffurflen yn cynnwys cwestiynau ynglŷn â sut y gallai’r cynnig effeithio ar Safonau’r Gymraeg a gwybodaeth am gydraddoldeb.

# 4. Canlyniadau'r Ymgynghoriad

## 4.1. Dull Cyfathrebu

45. Cafodd y Cyngor gyfanswm o 2420 o ymatebion gan ymgyngoreion yn ystod yr ymgynghoriad. Fe gasglwyd y rhain ar ffurf:

| Dull Cyflwyno / Sylwadau a Wnaed | Nifer a gafwyd |
|---|---:|
| Ffurflen Ymateb drwy'r ddolen | 452 |
| Ffurflen Ymateb drwy'r Cod QR | 1207 |
| Ffurflen Ymateb ar ffurf Copi Papur (drwy'r Post, Blwch Post yr Ysgol, wedi'i ddanfon â llaw) | 375 |
| Ffurflen Ymateb Plant a Phobl Ifanc (Copi Papur) | 20 |
| Deisebau | 1 |
| Negeseuon e-bost | 33 |
| Llythyrau unigol | 4 |
| Llythyrau torfol | 323 |
| Estyn | 1 |
| Cyrff Llywodraethu Ysgol | 1 |
| Undebau | 0 |
| Aelodau o'r Senedd ac Aelodau Seneddol | 3 |
| **Cyfanswm** | **2420** |

Tabl 1: Nifer o Ohebiaeth a Gafwyd

### 4.1.(a) Deisebau a Llythyrau Torfol

46. Cyflwynwyd deiseb o'r enw "*Save St David's Primary School Mold*" gyda 359 o lofnodion arni yn cefnogi cadw'r ysgol ar agor.

47. Cafodd set dorfol o'r un llythyr, o'r enw "*Objection to the Proposed Closure of St David's Catholic Primary School, Mold*", ei argraffu a'i lofnodi'n unigol gan 323 o bobl.

## 4.2. Canlyniadau'r Ffurflen Ymateb


48. Mae'r tablau a'r ffigurau isod yn dangos ymatebion a roddwyd i gwestiynau 1, 3 a 4 ar y ffurflen ymateb.

### 4.2.(a) Cefnogaeth ar gyfer y cynnig

49. Nodwch a ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â phob agwedd o'r cynnig

| Dewisiadau Ateb | Ia | Na | Dim ateb | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Cau Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Anthony yn Saltney erbyn 31 Awst 2026 | 99 | 1,936 | 11 | 2,046 |
| Uno Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant David yn yr Wyddgrug, Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir y Santes Fair yn y Fflint ac Ysgol Uwchradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Richard Gwyn erbyn 31 Awst 2026 gan weithredu dros y tri safle presennol. Bydd yr ysgol Gatholig wirfoddol a gynorthwyir 3-18 oed cyfrwng Saesneg newydd yn agor gydag enw a rhif ysgol newydd, ym mis Medi 2026. | 66 | 1,963 | 17 | 2,046 |
| Symud yr ysgol newydd i adeiladau newydd o 1 Medi 2029 | 82 | 1,950 | 14 | 2,046 |

Tabl 2: Cefnogaeth ar gyfer y cynnig





Ffigur1: Canran o gefnogaeth ar gyfer y cynnig

### 4.2.(b) Cysylltiadau Ysgolion

50. Gyda pha ysgol(ion) ydych chi'n gysylltiedig?

| Dewisiadau Ateb | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Ysgol Uwchradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Richard Gwyn | 417 | 14.87% |
| Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir y Santes Fair | 161 | 5.74% |
| Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant David | 1412 | 50.36% |
| Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Anthony | 658 | 23.47% |
| Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Yr Hybarch Edward Morgan | 44 | 1.57% |
| Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Santes Gwenffrewi | 37 | 1.32% |
| Arall (nodwch): | 75 | 2.67% |
| **Cyfanswm** | **2804** | **100.00%** |

Tabl 3: Cysylltiad Ymatebwyr ag Ysgolion





Ffigur2: Canran Cysylltiad Ymatebwyr ag Ysgolion

#### 4.2.(c) Perthnasoedd Ysgol

51. Beth yw eich cysylltiad/perthynas â'r ysgol rydych chi wedi nodi cysylltiad â hi?

| Dewisiadau Ateb | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Rwy'n rhiant/gofalwr i ddisgybl yn yr ysgol | 293 | 14.32% |
| Rwy'n ddisgybl yn yr ysgol | 70 | 3.42% |
| Rwy'n ddarpar riant/gofalwr i ddisgybl yn yr ysgol | 111 | 5.43% |
| Rwy'n athro/athrawes/aelod arall o staff yn yr ysgol | 49 | 2.39% |
| Rwy'n llywodraethwr yn yr ysgol | 17 | 0.83% |
| Rwy'n aelod o'r gymuned | 1249 | 61.05% |
| Arall (nodwch): | 257 | 12.56% |
| **Cyfanswm** | **2046** | **100.00%** |

Tabl 4: Perthynas ag Ymatebwyr Ysgolion




Ffigur 3: Perthynas ag Ymatebwyr Ysgolion

### 4.3. Themâu Ffurflenni Ymateb

52. Gofynnwyd i bobl roi eu sylwadau mewn blwch sylwadau neu egluro pa elfen o'r cynnig yr oeddynt yn ei gefnogi neu beidio. Croesawyd cynigion eraill hefyd.

53. Mae’r sylwadau a wnaed wedi cael eu crynhoi a’u grwpio gyda’i gilydd mewn i themâu (Tabl 5).

54. Rhoddwyd pennawd i bob thema, ynghyd â disgrifiad byr ac enghreifftiau o’r sylwadau a ddaeth i law. Mae’r nifer o sylwadau sydd wedi cyfrannu at y thema wedi cael ei gynnwys hefyd.

55. Fel sydd angen gan y Cod, mae’r Cyngor wedi ymateb i bob thema trwy roi eglurhad, rhoi gwelliant i'r cynnig neu wrthod y pryderon, gyda rhesymau i gefnogi.

| Themâu ac Enghreifftiau o Sylwadau | Ymateb CSFf |
|---|---|
| **Gwrthwynebiad Cymunedol Cryf i Gau Ysgolion (428 o sylwadau)**<br><br>Mynegodd lawer o ymatebwyr wrthwynebiad clir a thaer i’r cynigion arfaethedig i gau ysgolion. Disgrifiwyd Sant David a Sant Anthony yn ganolog i’w cymuned, gyda phwysigrwydd dwfn yn addysgiadol ac yn ysbrydol. Roedd ymatebwyr yn cynnwys rhieni, neiniau a theidiau, cyn ddisgyblion, athrawon a phlwyfolion.<br><br>“*Bydd cau’r ysgolion yma’n rhwygo’r galon allan o’n cymuned*.”<br><br>“*Nid ysgol yn unig ydi Sant David, mae’n rhan o hanes ein teulu a bywyd y plwyf*.”<br><br>“*Os ydych chi’n cau’r ysgol, rydych chi’n cau’r gymuned*.” | Rydym ni’n cydnabod bod nifer o ymatebwyr yn gwrthwynebu’r cynnig arfaethedig i gau’r ysgol yn gryf, rydym ni’n ymwybodol o’r effaith emosiynol y mae hyn wedi’i gael ar y gymuned.<br><br>Fe gydnabyddir bod yr ysgolion yma wedi bod yn ganolog i’r boblogaeth Gatholig yn hanesyddol yn eu hardaloedd, a’u bod yn dal i gael eu gwerthfawrogi ymysg eu cymunedau.<br><br>Serch hynny, mae gan y Cyngor gyfrifoldeb i ystyried cyd-destun ehangach addysg yn Sir y Fflint, ac weithiau, mae hyn yn golygu bod angen gwneud newidiadau anodd.<br><br>Mae’r cynnig rhagweithiol yma’n lleihau llefydd gwag a all arwain at ysgolion sydd wedi’u hariannu’n well, a rhyddhau adnoddau i’w buddsoddi mewn ardaloedd eraill. Yn y pendraw, bydd hyn o fudd i nifer o blant ac yn gwneud y ddarpariaeth gyffredinol yn fwy cynaliadwy.<br><br>Nid yw’r cynnig i gau ac uno’r ysgolion Catholig wedi ei gyflwyno’n ysgafn. Mae wedi ei yrru gan sawl ffactor dybryd:<br><br>Gostyngiad mewn niferoedd disgyblion: Mae nifer o ysgolion yn profi gostyngiad sylweddol yn nifer y dysgwyr, sy’n effeithio ar gyllid, staffio a’r gallu i gynnig cwricwlwm eang a chytbwys. |

| | |
|---|---|
| | Cynaliadwyedd ariannol: Mae cynnal adeiladau niferus nad ydynt yn cael eu defnyddio ddigon yn gynyddol anodd. Mae adnoddau yn cael eu hymestyn ac mae'n rhaid i ni sicrhau bod cyllid yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol i gefnogi dysgu ac addysgu o ansawdd uchel.<br><br>Cydraddoldeb addysgiadol: Gall uno helpu i sicrhau bod gan yr holl ddisgyblion fynediad i'r un cyfleoedd, staff arbenigol a chyfleusterau— rhywbeth y gall ysgolion llai ei chael yn anodd i'w ddarparu'n gyson.<br><br>Darpariaeth sy'n addas at y dyfodol: Mae'n rhaid i ni gynllunio ar gyfer cynaliadwyedd hirdymor. Mae hyn yn cynnwys addasu i newidiadau demograffig a sicrhau bod stad ein hysgol yn addas i'r diben yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod.<br><br>Fe wyddom fod newid yn anodd, yn arbennig pan fo'n effeithio ar blant a theuluoedd yn uniongyrchol. Dyma pam rydym yn adolygu'r holl adborth yn ofalus cyn i unrhyw benderfyniadau gael eu gwneud. Rydym yn parhau yn ymrwymedig i weithio gyda chymunedau i ddod o hyd i'r canlyniadau gorau posibl i ddysgwyr. |
| **Pryderon Diogelu a Lles am Gludo Plant Ifanc (351 o sylwadau)**<br><br>Mae yna wrthwynebiad cryf i'r cynigion a fyddai'n golygu cludo plant oedran meithrin a chynradd i'r Fflint. Mae pryderon penodol yn cynnwys:<br><br>• Siwrneiau hir ar y bws bob dydd (hyd at 13 milltir)<br>• Risgiau goruchwylio a diogelu<br>• Colli trefn a sefydlogrwydd<br>• Effaith ar iechyd meddwl plant a bywyd y teulu | Rydym yn cydnabod y pryderon a fynegwyd am bellteroedd teithio pellach a diogelwch. Mae teuluoedd wedi amlinellu'r heriau y byddai hyn yn ei gyflwyno i ddisgyblion iau, y rhai hynny gydag anghenion ychwanegol a'r rhai hynny heb fynediad at gar yn glir. Mae materion penodol fel ffyrdd prysur, croesfannau cyfyngedig i gerddwyr a diffyg cludiant cyhoeddus wedi eu hamlygu yn ystyriol ac yn gyson.<br><br>Mae'r pryderon hyn yn ddilys ac yn cael eu deall yn fawr. Fodd bynnag, mae'n bwysig ystyried y cyd-destun ehangach: ar draws Sir y Fflint a Chymru, mae nifer o blant cynradd |

| | |
|---|---|
| "*Dydw i ddim eisiau i fy mhlentyn 4 oed fod ar fws am awr bob dydd.*"<br><br>"*Mae yna risgiau diogelu difrifol ynghlwm â chludo plant ifanc*."<br><br>"*Fe fydd straen siwrneiau hir yn niweidio lles ac iechyd meddwl plant*." | yn cerdded hyd at ddwy filltir fel mater o drefn i gyrraedd eu hysgolion cynradd a thair milltir i gyrraedd eu hysgolion uwchradd, mae gan eraill hefyd fynediad at gludiant i gyrraedd eu hysgolion. Fe nodir bod Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol am ddim fel arfer ond ar gael i blant oedran ysgol statudol (5 oed a hŷn). Tra bod yn rhaid i Awdurdodau Lleol asesu anghenion teithio plant oedran meithrin, nid yw cludiant am ddim yn cael ei warantu ac fe ellir ei gynnig ar sail ddewisol. Fe allai hyn effeithio ar deuluoedd sy'n chwilio am leoedd meithrin Catholig yn ardaloedd Saltney a'r Wyddgrug, yn enwedig os nad y dosbarth meithrin a ddewisir ydi'r ysgol addas agosaf.<br><br>Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod unrhyw newidiadau yn cael eu cefnogi gan fesurau diogelwch priodol a datrysiadau ymarferol. Ein nod yw cydbwyso anghenion unigol gyda buddion addysgol a chymunedol ehangach, gan sicrhau y gall pob plentyn gael at yr ysgol yn ddiogel ac yn hyderus.<br><br>Bydd adolygiad cynhwysfawr o isadeiledd presennol y ffyrdd yn cael ei gynnal fel rhan o asesiad ffurfiol o lwybrau cerdded diogel. Bydd hyn yn cynnwys gwerthusiad manwl o ddiogelwch y ffyrdd, croesfannau i gerddwyr a hygyrchedd cyffredinol y safle newydd arfaethedig. Hefyd bydd cymhwysedd ar gyfer cludiant o'r cartref i'r ysgol yn cael ei asesu yn unol â pholisi lleol i sicrhau tegwch a chysondeb.<br><br>I gefnogi'r broses hon bydd arolygon cludiant llawn yn cael eu cynnal i archwilio argaeledd parcio, mynediad i'r safle a llwybrau teithio. Mae'r asesiadau hyn yn hanfodol i sicrhau, pe byddai'r cynnig yn symud yn ei flaen, fod trefniadau priodol a diogel mewn grym ar gyfer yr holl ddisgyblion a'r teuluoedd. |

| | |
|---|---|
| **Colli Dewis Rhieni a Mynediad at Addysg Gatholig (302 o ymatebion)**<br><br>Roedd ymatebwyr yn bryderus y byddai cau'r ysgolion yn lleihau dewis addysgiadol yn sylweddol i deuluoedd sy'n chwilio am addysg sy'n seiliedig ar ffydd. Roedd preswylwyr yr Wyddgrug a Saltney yn ofni y byddai cael gwared ar eu hunig ysgol Gatholig yn:<br><br>• Gorfodi ysgolion i ddewis ysgolion seciwlar<br>• Lleihau hunaniaeth Gatholig yn eu hardal<br>• Tanseilio partneriaethau'r Eglwys a'r ysgol<br><br>"*Mae cael gwared ar yr ysgol yn yr Wyddgrug yn golygu nad oes gan deuluoedd Catholig ddewis*."<br><br>"*Byddwn yn cael ein gorfodi i anfon ein plant i ysgolion seciwlar, sydd yn tanseilio ein ffydd*."<br><br>"*Dylai rhieni gael yr hawl i gael addysg Gatholig yn lleol*." | Nid yw'r cynnig yn cael gwared ar ddewis rhieni/gofalwyr i ddewis addysg Gatholig i'w plentyn. Fe fydd y Cyngor yn cefnogi'r rhai sy'n dymuno trosglwyddo i'w darpariaeth Gatholig arall agosaf gan anelu at wneud y cyfnod pontio mor ddidrafferth â phosibl.<br><br>Gall yr Eglwys Gatholig barhau i fod yn bresenoldeb pwysig mewn ardaloedd lle nad oes yna ysgolion Catholig. Gall yr Eglwys ymgysylltu â lleoliadau eraill, yn cynnwys ysgolion nad ydynt yn ysgolion ffyrdd, er mwyn cynnig gofal a gweithgareddau sy'n seiliedig ar ffydd.<br><br>Tra bod y pryderon a fynegwyd gan ymatebwyr yn ddealladwy, yn enwedig o ran addysg sy'n seiliedig ar ffydd a hunaniaeth gymunedol, mae nifer o wrthbwyntiau yn awgrymu na fyddai'r effaith mor ddifrifol neu anghildroadwy ag yr ofnwyd:<br><br>**Mynediad Parhaus at Addysg Gatholig**<br><br>Mae ysgolion Catholig rhanbarthol yn parhau i fod ar gael: Er y gallai'r ysgol leol gau, mae llefydd addysg Gatholig ar gael i'r dysgwyr hynny sydd angen symud ac mae dal ar gael mewn ardaloedd cyfagos. Bydd cefnogaeth â chludiant neu bartneriaethau gydag ysgolion Catholig eraill yn helpu i gynnal mynediad.<br><br>Addysg ddigidol a ffydd seiliedig yn y plwyf: Gall teuluoedd ychwanegu at gyfarwyddyd crefyddol yn yr ysgol gyda rhaglenni'r plwyf, adnoddau ar-lein a holwyddoregau dan arweiniad y gymuned.<br><br>**Ansawdd Addysgiadol a Chynwysoldeb**<br><br>Mae ysgolion Catholig rhanbarthol yn parhau i fod ar gael: Er y gallai'r ysgol leol gau, mae addysg Gatholig dal yn hygyrch mewn ardaloedd cyfagos. Os bydd rhieni/gofalwyr yn dewis symud eu plant i ysgol seciwlar, mae'r ysgolion hyn yn aml yn cyfaddasu i anghenion ffydd: Mae nifer o ysgolion |

| | |
|---|---|
| | seciwlar yn parchu ac yn cefnogi amrywiaeth crefyddol, gan alluogi mannau gweddïo, astudiaethau crefyddol a dathliadau diwylliannol.<br><br>Canolbwyntio ar ragoriaeth academaidd a datblygiad holistig: Yn aml y flaenoriaeth mewn addysg yw afon yr addysgu, adnoddau, a chanlyniadau myfyrwyr—ffactorau y gall fod yn gryf mewn ysgolion seciwlar.<br><br>**Cryfhau hunaniaeth Gatholig y tu hwnt i ysgolion**<br><br>Caiff ffydd ei feithrin mewn teuluoedd a phlwyfi: Nid yw hunaniaeth Gatholig yn llwyr ddibynnol ar bresenoldeb mewn ysgol. Mae teuluoedd ac eglwysi yn chwarae rôl ganolog yn trosglwyddo gwerthoedd a thraddodiadau.<br><br>Gwytnwch Cymunedol: Gall y gymuned Gatholig yn yr Wyddgrug a Saltney barhau i ffynnu drwy weithgareddau'r plwyf, grwpiau ieuenctid ac ymgysylltiad rhwng cenedlaethau.<br><br>**Dyrannu Adnoddau Strategol**<br><br>Fe allai cau'r ysgolion adlewyrchu cynllunio addysgiadol ehangach: Yn aml mae penderfyniadau'n seiliedig ar dueddiadau yn niferoedd y disgyblion, cynaliadwyedd ariannol, a'r angen i wneud y mwyaf o adnoddau i'n holl ddysgwyr.<br><br>Cyfle i ailfuddsoddi: Fe allai adnoddau sy'n cael eu harbed o gynnal ysgolion sy'n cael eu tanddefnyddio gael eu hailgyfeirio i gryfhau addysg Gatholig yn rhywle arall neu gefnogi mentrau sy'n seiliedig ar ffydd. |
| **Pwysigrwydd addysg leol sy'n seiliedig yn y gymuned (247 o sylwadau)**<br><br>Fe bwysleisiwyd pwysigrwydd cadw ysgolion o fewn cymunedau lleol. Mae ysgolion lleol yn cael ei werthfawrogi am hyrwyddo integreiddio, cydlyniad cymdeithasol a | Fe gydnabyddir bod gan ysgolion rôl bwysig i'w chwarae yn eu cymunedau a bod pobl yn gwerthfawrogi addysg leol.<br><br>Serch hynny, mae gan y Cyngor gyfrifoldeb i sicrhau bod ysgolion yn gynaliadwy ac yn darparu'r cyfleoedd gorau i ddisgyblion. Mae |

| | |
|---|---|
| hygyrchedd. Mae ymatebwyr ofn y byddai cau ysgolion yn:<br>• Amharu ar fywyd cymunedol<br>• Cael gwared ar fynediad cerdded a beicio i'r ysgol<br>• Cael gwared ar ofal estynedig hanfodol<br>• Cynyddu'r pwysau ar ysgolion lleol nad ydynt yn rhai Catholig<br>"*Dylai plant allu cerdded i'r ysgol gyda ffrindiau, nid eistedd ar fysiau am oriau*."<br>"*Mae ein hysgol yn ganolog i'r gymuned, gan ddarparu gofal estynedig a chefnogaeth*."<br>"*Mae ysgolion lleol yn adeiladu cydlyniant cymunedol – ni ellir ei amnewid pan fydd wedi mynd*." | ysgolion sydd â llawer o lefydd gwag angen lefel anghymesur o fuddsoddiad i'w cynnal.<br>Er mai'r dyhead yw bod pob disgybl naill ai yn cerdded neu'n beicio i'r ysgol, nid yw hyn yn ymarferol mewn ardaloedd penodol o'r Sir, ac fe ddefnyddir cludiant diogel, priodol i ddarparu mynediad at addysg.<br>Fe allai unrhyw gyfleusterau neu wasanaethau (e.e. gofal plant) sydd naill ai'n cael eu darparu'n uniongyrchol gan yr ysgolion neu gan sefydliadau sy'n defnyddio adeiladau'r ysgol, gael eu hadleoli i leoliadau eraill yn yr ardal.<br>Er bod arwyddocâd emosiynol a hanesyddol pob ysgol yn cael ei gydnabod a'i barchu, mae'n rhaid gwneud penderfyniadau am gau ysgolion yn seiliedig ar flaenoriaethau strategol, cynaliadwyedd a chanlyniadau addysgiadol — nid teimlad yn unig.<br>**Rôl Gymunedol v Hyfywedd Addysgol**<br>Er bod yr ysgolion yn cael eu disgrifio fel 'canolbwyntiau cymunedol', eu prif swyddogaeth yw darparu addysg o ansawdd uchel. Os yw niferoedd disgyblion yn gostwng, safonau mewn perygl, neu nid yw'r adeiladau yn addas i'r diben mwyach, yna mae'n bosibl nad yw ei barhad er y budd gorau i'r dysgwyr. Er yn werthfawr ni all defnydd cymunedol gyfiawnhau cynnal ysgolion nad ydynt yn hyfyw yn addysgol nac yn ariannol mwyach.<br>**Mannau Cymunedol Eraill**<br>Mae'n rhaid pwyso'r honiad bod ysgolion yn ganolbwyntiau cymunedol yn erbyn argaeledd lleoliadau eraill yn ardal Saltney a'r Wyddgrug yn ehangach - gan gynnwys llyfrgelloedd, eglwysi, canolfannau hamdden ac ysgolion eraill gyda mynediad i'r gymuned. Mae hunaniaeth gymunedol yn bwysig, ond fe all gael ei gadw a'i gryfhau drwy ddefnydd ar y |

| | |
|---|---|
| | cyd o ofodau a rennir, ac nid o reidrwydd drwy gynnal isadeiledd nad yw'n cael ei ddefnyddio'n ddigonol.<br>**Gwaddol v Anghenion y Dyfodol**<br>Mae gwaddol sydd wedi trosglwyddo o genhedlaeth i genhedlaeth yn ystyrlon, ond nid yw'n bwysicach na'r angen i addasu i ddemograffeg sy'n newid, pwysau ariannol, a safonau addysgol. Mae dyfodol addysg yn Sir y Fflint yn dibynnu ar atgyfnerthiad strategol, buddsoddi mewn cyfleusterau modern, a sicrhau mynediad teg at adnoddau.  Ni all atgofion fod yn sail ar gyfer cynllunio cynaliadwy.<br>**Effeithlonrwydd Ariannol a Gweithredol**<br>Gall cynnal ysgolion bach gyda lleoedd gwag sylweddol ddargyfeirio adnoddau o ysgolion eraill sy'n gwasanaethu poblogaethau mwy neu sydd â mwy o anghenion. Mae penderfyniadau i gau yn aml yn cael eu gwneud i ailddyrannu cyllid yn decach, gwella sefydlogrwydd staffio a sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn elwa o gwricwlwm eang a chytbwys. Mae'n rhaid i ddadleuon emosiynol gael eu cydbwyso yn erbyn y gwir gostau a'r cyfleoedd a gaiff eu colli o gadw ysgol ar agor nad yw o bosibl yn bodloni'r meini prawf strategol.<br>**Ymgynghori ac Atebolrwydd**<br>Tra bod cyfanswm yr adborth yn sylweddol, nid yw ymgynghori bob amser yn arwain at gadw. Mae'n sicrhau bod barn yn cael ei glywed, ond mae'n rhaid gwneud penderfyniadau yng nghyd–destun cyfrifoldebau dyletswyddau statudol, a chynllunio hirdymor Awdurdodau Lleol.<br>Mae gan Ysgolion Catholig werth emosiynol a hanesyddol, ond mae'n rhaid asesu'r achos dros eu cadw yn feirniadol yn erbyn safonau addysgol, cynaliadwyedd ariannol a |

| | |
|---|---|
| | blaenoriaethau strategol. Mae dyfodol addysg yn yr ardal yn ddibynnol ar wneud penderfyniadau anodd sydd er y lles mwyaf, hyd yn oed pan maent yn herio cysylltiadau hirsefydlog. |
| **Beirniadaeth o "Ysgol Enfawr" 3–18 oed (212 o sylwadau)**<br><br>Derbyniodd yr ysgol 3-18 oed arfaethedig yn y Fflint lawer o feirniadaeth. Gofynnodd nifer am gadernid addysgiadol uno pob grŵp oedran ar un safle. Mae pryderon yn cynnwys:<br><br>• Cymhariaeth negyddol ag Ysgol Crist y Gair (Sir Ddinbych)<br>• Diffyg gallu arweinyddol ar gyfer model unedig<br>• Perygl i safon addysg a gofal bugeiliol<br><br>"*Mae Crist y Gair yn dangos nad ydi ysgolion 3–18 oed yn gweithio*."<br><br>"*Ni all un Pennaeth arwain ysgol gydag ystod oedran mor fawr*."<br><br>"*Mae uno pob oedran yn peryglu safon addysg a gofal bugeiliol*." | Mae'r model ysgol 3-18 oed yn fodel dilys sy'n briodol ar gyfer ein darpariaeth Gatholig yn Sir y Fflint, ac mae wedi cael ei ddatblygu'n llawn fel model posibl gydag Esgobaeth Wrecsam.   Mae'r model 3-18 oed yn cynnig nifer o fanteision:<br><br>• Cwricwlwm Gatholig cyson<br>• Athrawon a disgyblion yn gyfarwydd â'i gilydd a all arwain at well dealltwriaeth o anghenion unigolion<br>• Cyfnod pontio esmwyth rhwng grwpiau oedran<br>• Yn agor cyfleoedd mentora i ddisgyblion a staff<br>• Profiadau a rennir<br><br>O ran y sylwadau penodol:<br><br>"Mae Crist y Gair yn dangos nad ydi ysgolion 3–18 oed yn gweithio."<br><br>Mae'n ymddangos bod y casgliad yma'n seiliedig ar un enghraifft ac nid yw'n adlewyrchu'r cyd-destun ehangach. Er bod Crist y Gair wedi wynebu heriau, nid yw'n cynrychioli pob ysgol 3-18 oed. Mae nifer o ysgolion o'r fath ar draws y DU ac yn rhyngwladol wedi dangos canlyniadau cryf o ran cyflawniad academaidd a lles myfyrwyr.<br><br>Gyda'r arweinyddiaeth a strwythur cywir, gall campysau 3-18 oed ffynnu.<br><br>Mae gan y Cyngor enghreifftiau llwyddiannus o drefniadau campysau sydd wedi'u cydleoli lle mae dysgwyr 3-16 oed yn cael addysg.<br><br>Dysgu o brofiad: Fe allai unrhyw broblem a gafodd Crist y Gair ddylanwadu'n well ar |

| | |
|---|---|
| | gynllunio a gweithrediad yn Sir y Fflint, gan osgoi problemau tebyg.<br><br>“Ni all un Pennaeth arwain ysgol gydag ystod oedran mor fawr.”<br><br>Mae’r pryder yma’n camddeall strwythur arweinyddiaeth ysgolion 3-18 oed.<br><br>Arweinyddiaeth Wasgaredig: Mae’r ysgolion hyn fel arfer yn gweithredu gyda thimau arweinyddiaeth sy’n benodol i’r cyfnod (e.e. Penaethiaid Cynradd, Uwchradd, Gofal Bugeiliol), i gyd yn adrodd yn ôl i’r Pennaeth Gweithredol.<br><br>Trosolwg strategol: Mae’r Pennaeth Gweithredol yn darparu gweledigaeth a chydlyniant, tra bod gweithredoedd o ddydd i ddydd yn cael eu rheoli gan arweinwyr profiadol ym mhob cyfnod oedran.<br><br>Gwella cyfnodau pontio: Gall model arweinyddiaeth unedig wella parhad a lleihau amhariaeth yn ystod pwyntiau trosglwyddo allweddol (e.e. Blwyddyn 6 i Flwyddyn 7).<br><br>“Mae uno pob oedran yn peryglu safon addysg a gofal bugeiliol.”<br><br>Mae’r pryder yma’n tybio bod integreiddio oedrannau yn arwain yn awtomatig at ganlyniadau negyddol, ac nid yw tystiolaeth yn cefnogi hyn.<br><br>Amgylcheddau wedi’u teilwra: Mae campysau 3-18 oed modern wedi'u dylunio gyda pharthau sy’n briodol i oedrannau, gan sicrhau bod gan fyfyrwyr iau a hŷn eu gofod eu hunain a’u profiadau gwahanol.<br><br>Gofal bugeiliol gwell: Mae system unedig yn caniatáu am gefnogaeth fugeiliol gyson, gallu olrhain anghenion unigolion yn well, a pherthnasoedd cryfach ar draws y blynyddoedd.<br><br>Parhad a sefydlogrwydd: Mae myfyrwyr yn elwa o amgylchedd sefydlog drwy gydol eu |

| | |
|---|---|
| | bywyd ysgol, a gall hyn wella lles emosiynol a pherfformiad academaidd.<br><br>Mae'r feirniadaeth am y model 3-18 oed yn aml yn deillio o gamsyniadau neu enghreifftiau prin. Gyda dyluniad ystyrlon, arweinyddiaeth gref, ac ymgysylltu â'r gymuned, gall ysgol 3-18 oed gynnig:<br><br>Cyfnodau pontio gwell<br><br>Cysylltiadau cryfach<br><br>Cefnogaeth gyson<br><br>Defnydd effeithlon o adnoddau |
| **Colli ethos Catholig a chysylltiadau â'r plwyf (188 o sylwadau)**<br><br>Mae ymatebwyr yn ofni y bydd cau ysgolion yn:<br><br>• Torri cysylltiadau rhwng ysgolion a phlwyfi lleol<br>• Gwanhau'r genhadaeth Gatholig mewn trefi lleol<br>• Tanseilio ffurfiad ffydd a pharatoadau sacramentaidd<br><br>"*Mae ein plwyf a'n hysgol yn gweithio law yn llaw; mae cau'r ysgol yn torri hyn*."<br><br>"*Bydd ffurfiad ffydd yn gwanhau heb ysgol Gatholig leol*."<br><br>"*Bydd plant yn colli cysylltiadau hollbwysig gyda'r plwyf a pharatoadau sacramentaidd*." | Mae cymunedau Catholig ac enwadau eraill yn gryf ac yn wydn. Gyda chefnogaeth gan yr Esgobaeth, nid yw cael gwared ar ysgolion yn gorfod golygu colli addysg a chyfleusterau sy'n seiliedig ar ffydd.<br><br>Mewn gwirionedd, fe allai cael gwared ar yr angen i gynnal adeiladau aneffeithiol helpu'r Eglwys i archwilio ffyrdd amgen o hyrwyddo'r ffydd Gatholig ac annog pobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n seiliedig ar Babyddiaeth.<br><br>Tra bod y pryderon yn daer ac yn ddilys, mae hi'n bwysig ystyried nad ydi cau ysgolion o anghenraid yn golygu diwedd ethos Catholig neu ymgysylltu â phlwyf. Dyma sawl pwynt i herio'r tybiaethau:<br><br>Gellir cadw ethos Catholig y tu hwnt i adeiladau<br><br>Nid yw gwerthoedd a chenhadaeth Gatholig wedi'u cyfyngu i bresenoldeb ysgol. Fe ellir eu sefydlu mewn i ganolbwyntiau addysg Catholig rhanbarthol, mewn i adnoddau a rennir a thrwy estyn allan i'r gymuned.<br><br>Gall athrawon ac arweinwyr sydd wedi ymrwymo i'r ffydd barhau i feithrin hunaniaeth Gatholig mewn ysgolion cyfunol. |

| | |
|---|---|
| | Gellir cryfhau cysylltiadau â'r plwyf mewn ffyrdd newydd.<br><br>Gall uno ysgolion annog cydweithio ehangach rhwng plwyfi, creu rhwydweithiau rhanbarthol cryfach yn hytrach nai rhai lleol prin.<br><br>Mae gwelliannau gyda thechnoleg a chludiant yn galluogi ymgysylltu parhaus â'r plwyf, hyd yn oed os nad ydi'r ysgol drws nesaf.<br><br>Mae ffurfio ffydd yn gyfrifoldeb ar bawb.<br><br>Yn bennaf, rôl teuluoedd a phlwyfi ydi ffurfio ffydd a pharatoadau sacramentaidd, nid ysgolion yn unig.<br><br>Gall plwyfi gynnig rhaglenni addysgu, grwpiau ieuenctid a dosbarthiadau sacramentaidd gwell sy'n annibynnol o leoliadau addysgiadol.<br><br>Gall cau ysgolion arwain at ddyrannu adnoddau'n well.<br><br>Gall cynnal ysgolion bychain heb ddigon o adnoddau wanhau safon addysg Gatholig.<br><br>Gall atgyfnerthu arwain at well cyfleusterau, mwy o staff cymwys, ac addysg grefyddol gyfoethog, gan gryfhau yn hytrach na gwanhau ffurfiad fydd.<br><br>Addasrwydd hanesyddol yr eglwys.<br><br>Mae gan yr Eglwys Gatholig hanes hir o addasu i newidiadau cymdeithasol a demograffeg.<br><br>Fe allai cau ysgolion adlewyrchu esblygiad strategol, nid encilio o genhadaeth Gatholig. |
| **Tryloywder Ariannol a Phrosesu Beirniadaeth (139 o sylwadau)**<br><br>Thema ailadroddus oedd drwgdybiaeth yn y broses ymgynghori. Ymhlith y materion a godwyd roedd:<br><br>• Anghysonderau yn y costau trwsio a adroddwyd | Fe dderbynnir bod nifer sylweddol o bobl wedi codi pryder am fanylion ariannol y cynnig. O ganlyniad, mae hi'n bwysig mynd i'r afael â'r pryderon yma'n uniongyrchol:<br><br>• Y rheswm am yr anghysondeb yn y costau trwsio a adroddwyd oedd pryd gofynnwyd am y wybodaeth. Mae'r ffigurau sy'n cael |

| | |
|---|---|
| • Diffyg tryloywder ynglŷn ag ymrwymiadau ariannu yr Esgobaeth.<br>• Pryderon am ysgogiad i werthu tir.<br>• Diffyg ymgynghori cynnar gyda llywodraethwyr, rhieni a chlerigwyr<br>"*Rydym yn ddrwgdybus o'r ffigurau – mae'r ffigurau trwsio wedi'u gorliwio*."<br>"*Dydi'r Esgobaeth heb fod yn dryloyw am gyllid*."<br>"*Mae hyn yn teimlo fel mai'r ysgogiad ydi gwerthu tir, nid anghenion plant*." | eu cadw yn gallu newid wrth i waith gael ei wneud. Pan ofynnwyd am gostau, roedd rhywfaint o'r gwaith trwsio wrthi'n cael ei gwblhau ac felly roedd y ffigur cyffredinol dal yn cynnwys yr elfen honno.<br>• Fe nodwyd yn glir y byddai'r cynnig yn cael ei gyflwyno drwy Raglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru petai achos busnes yn cael ei gyflwyno'n llwyddiannus, a byddai hyn yn darparu cyllid o 85% o gyfanswm y costau cyfalaf ac y byddai'r Cyngor yn ariannu'r 15% oedd yn weddill mewn costau cyfalaf. Nid oedd yna ymrwymiad ariannol gan yr Esgobaeth i gyflawni'r cynnig.<br>• Mae unrhyw dir sydd yn rhan o'r cynnig er budd a chynaliadwyedd hirdymor addysg yn yr ardaloedd dan sylw.<br>• Roedd yna ymgysylltu helaeth gyda Chadeirydd Llywodraethwyr a Phenaethiaid yr ysgolion cyn cyhoeddi'r cynnig, fel y manylir yn y ddogfen ymgynghori.<br>Anghysonderau yn y costau trwsio a adroddwyd<br>Beirniadaeth: "Rydym yn ddrwgdybus o'r ffigurau – mae'r ffigurau trwsio wedi'u gorliwio."<br>Asesiad Annibynnol: Cafodd y costau trwsio eu seilio ar arolygon annibynnol a gynhaliwyd gan weithwyr proffesiynol cymwys. Ni chafodd yr adroddiadau yma eu llunio gan yr Esgobaeth nac arweinwyr yr ysgolion.<br>Y rheswm am y newid yn y costau trwsio yw amseriad y cais am wybodaeth. Fe all ffigurau trwsio newid wrth i waith fynd yn ei flaen. Pan ddarparwyd y costau, roedd rhywfaint o'r gwaith trwsio dal i gael ei wneud, ac roedd y cyfanswm yn cynnwys amcangyfrifon ar gyfer y gwaith yna. |

| | |
|---|---|
| | Meincnodi cymharol: Mae adeiladau tebyg yn yr ardal o oed a chyflwr cymharol wedi dangos amcangyfrifon cost cyson, sy'n dilysu'r ffigurau.<br><br>Diffyg tryloywder ynglŷn ag ymrwymiadau ariannu yr Esgobaeth.<br><br>Beirniadaeth: "Dydi'r Esgobaeth heb fod yn dryloyw am gyllid."<br><br>Mae'r Cyngor a'r Esgobaeth wedi gwneud datganiadau cyhoeddus sy'n amlinellu trefniadau ariannu ar gyfer y cynnig yma, yn cynnwys cyllid a grantiau.  Fe fu'r Esgobaeth a'r Cyngor yn gwbl dryloyw ynglŷn â chyllid.<br><br>Proses Gyllidebu Agored: Mae gwybodaeth am y gyllideb wedi cael ei rhannu yn nogfen yr ymgynghoriad.<br><br>Trosolwg gan Drydydd Parti: Mae cynlluniau cyllido ariannol ar gyfer y cynnig yma wedi cael eu hadolygu gan archwilwyr allanol er mwyn sicrhau atebolrwydd a thryloywder.<br><br>Pryderon am Ysgogiad i Werthu Tir<br><br>Beirniadaeth: "Mae hyn yn teimlo fel mai'r ysgogiad ydi gwerthu tir, nid anghenion plant."<br><br>Blaenoriaethau Addysgiadol yn Gyntaf: Y prif ysgogiad ar gyfer y cynnig yma ydi sicrhau amgylcheddau dysgu diogel, modern a chynaliadwy. Mae unrhyw werthiant tir sy'n deillio o'r cynnig yma, os yn briodol, yn ail fecanwaith i ariannu cynlluniau cyfalaf corfforaethol, nid dyma'r prif gymhelliant.<br><br>Ymrwymiad i Ailfuddsoddi: Caiff unrhyw elw o werthu'r tir ei ail-fuddsoddi mewn i isadeiledd addysgiadol a'r Cyngor, ni fydd yn cael ei ddargyfeirio i unrhyw le arall.<br><br>Cynnwys Budd-ddeiliad: Mae penderfyniadau am ddefnydd tir wedi cynnwys ymgynghori gyda chynllunwyr corfforaethol, ariannol ac addysgiadol. |

<table>
<tr>
<td></td>
<td> Diffyg Ymgynghori Cynnar gyda Llywodraethwyr, Rhieni a Chlerigwyr
Beirniadaeth: “Nid oedd yna ymgynghori cynnar.”
Amserlen yr ymgysylltu: Dechreuodd trafodaethau cychwynnol gyda budd-ddeiliaid allweddol dros flwyddyn yn ôl, gyda chyfarfodydd ymgysylltu amrywiol gyda Chadeirydd y Llywodraethau a Phennaeth ac Ymddiriedolwyr drwy’r Esgobaeth.
Defnyddiwyd Sawl Sianel: Mae ymgynghori wedi cynnwys sawl dull o gofnodi adborth yn cynnwys arolygon a chyfarfodydd uniongyrchol. Tra bod rhai budd-ddeiliaid wedi methu sesiynau cynnar, mae’r broses wedi bod yn un barhaus a chynhwysol. </td>
</tr>
<tr>
<td> Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) (117 o sylwadau)
Cafwyd canmoliaeth ar gyfer cefnogaeth gynhwysol sy’n meithrin i ddysgwyr ADY a niwroamrywiol. Mae yna bryderon difrifol y bydd amgylcheddau ysgol gyfunol mwy yn:
<ul>
<li>Llai addas i ddisgyblion sydd angen lleoliadau llai, tawelach</li>
<li>Yn arwain at atchweliad mewn dysgu a hyder</li>
<li>Llai o gefnogaeth unigol</li>
</ul>
“Mae Sant David yn darparu gofod tawel sy’n meithrin – byddai safle mwy yn gorlethu fy mhlentyn.”
“Mae plant ADY angen dosbarthiadau llai, nid ysgol enfawr.”
“Mae fy mhlentyn wedi ffynnu yn Sant David; dwi’n ofni atchweliad os byddant yn symud.” </td>
<td> Bydd y Cyngor yn cymryd pob cam ymarferol i leihau aflonyddwch i bob disgybl gan roi ystyriaeth benodol i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.
Bydd anghenion yn cael eu hadolygu yn unol â chyfrifoldebau statudol y Cyngor a’u haddasu tuag at ddysgwyr unigol.
Un o fanteision ysgol fwy yw y gallant gynnig darpariaeth ADY well yn sgil y cyllid cynyddol a chyflogi staff mwy arbenigol.
Gall cyfleusterau mewn ysgol newydd gynnwys ystafelloedd meithrin arbennig, gofodau synhwyraidd, parthau tawel a gofod dysgu y gellir ei addasu. Gellir ystyried y rhain i gyd yn rhan o’r broses ddylunio.
Rydym yn cydnabod y pryder sydd wedi ei fynegi ynglŷn ag effaith bosibl y cynnig hwn ar les plant, yn arbennig y rhai hynny gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol neu sy’n dibynnu ar drefn ddyddiol a sefyllfa gyfarwydd. Rydym yn deall fod y posibilrwydd o newid yn dod â gwir bryder i nifer o deuluoedd am orbryder cynyddol, gofid </td>
</tr>
</table>

| | |
|---|---|
| | emosiynol neu lithro'n ôl o ran ymddygiad. Rydym yn hynod o ystyriol o'r adroddiadau fod rhai plant eisoes yn teimlo ansefydlogrwydd yn ystod y cyfnod ymgynghori. Mae cefnogi iechyd meddwl plant yn flaenoriaeth allweddol, ac os ydi'r cynnig yn symud yn ei flaen, byddwn yn gweithio'n agos gydag ysgolion, teuluoedd a gwasanaethau arbenigol i sicrhau bod unrhyw bontio yn cael ei reoli â gofal, sensitifrwydd, a chefnogaeth briodol i bob dysgwyr yn unol â pholisi lleol. Mae gan y Cyngor hanes cryf o gefnogi dysgwyr drwy adleoli i safleoedd newydd, gan gynnwys pontio llwyddiannus i adeiladau newydd. Mae hyn wedi golygu mwy o gefnogaeth i ysgolion a'r holl ddysgwyr gyda mesurau penodol fel ymweliadau amser tawel i helpu disgyblion gydag ADY i addasu'n llyfn. |
| **Galw Cynyddol a Datblygiad Lleol (94 o sylwadau)**<br><br>Fe soniodd llawer bod yna ddatblygiadau tai sylweddol yn yr Wyddgrug, gyda dros 300 o dai newydd wedi'u cynllunio'n agos at Sant David. Mae'r ymatebwyr yn dadlau y dylai hyn gyfiawnhau:<br><br>• Cadw'r ysgol i fodloni'r galw yn y dyfodol<br>• Atal gorlenwi yn ysgolion eraill yr Wyddgrug<br><br>"*Mae dros 300 o gartrefi newydd yn cael eu hadeiladu ger Sant David – byddwn angen mwy o lefydd mewn ysgolion, nid llai*."<br><br>"*Mae cau'r ysgol yn anwybyddu'r twf mewn tai yn yr Wyddgrug*."<br><br>"*Bydd galw yn y dyfodol yn rhoi pwysau ar ysgolion eraill yr Wyddgrug os bydd Sant David yn cael ei golli*." | Tra bod yna ddatblygiadau tai wedi'u cynllunio yn ardal yr Wyddgrug, nid yw'r twf yma o anghenraid yn golygu y byddai unrhyw blant o'r datblygiadau yna'n dewis ysgol benodol i'w mynychu. Mae dewisiadau rhieni'n golygu y gallai rhieni/gofalwyr ddewis unrhyw ysgol i'w plentyn, pan fo yna leoedd gwag.<br><br>Mae yna ddigon o le yn ysgolion presennol yr ardal i allu delio ag unrhyw gynnydd mewn galw o'r datblygiadau tai presennol sydd wedi'u cynllunio.<br><br>Tra gall datblygiad tai newydd yn yr ardal gynyddu'r galw, ni fydd pob tŷ yn cyfrannu at niferoedd yr ysgol ar unwaith. Mae teuluoedd yn symud yn raddol a daw plant i'r ysgol ar gyfnodau gwahanol.<br><br>Cynllunio Capasiti Cadarn<br><br>Mae'r ysgol newydd arfaethedig wedi ei ddylunio yn dilyn dadansoddiad demograffig |

| | |
|---|---|
| | cynhwysfawr, gan gynnwys y tueddiadau o ran tai a chyfraddau geni.<br><br>Mae capasiti wedi ei gynllunio i fodloni anghenion presennol a'r anghenion a ragwelir yn y dyfodol, gyda hyblygrwydd i addasu os yw'r galw yn newid.<br><br>Isadeiledd datblygadwy<br><br>Byddai dyluniad yr ysgol yn galluogi ehangu yn y dyfodol os oes angen, gan gynnwys y potensial ar gyfer dosbarthiadau neu gyfleusterau ychwanegol.<br><br>Mae hyn yn sicrhau y gall yr ysgol ymateb i unrhyw gynnydd annisgwyl yn niferoedd y disgyblion.<br><br>Monitro ac adolygu parhaus<br><br>Caiff capasiti ysgolion a dalgylchoedd eu hadolygu'n flynyddol, gan alluogi addasiadau ymatebol yn seiliedig ar alw gwirioneddol. |
| **Pryderon Amgylcheddol a Logisteg (76 o sylwadau)**<br><br>Roedd nifer yn dadlau bod y cynigion yn gwrthddweud nodau amgylcheddol a lles. Mae pryderon penodol yn cynnwys:<br><br>• Mwy o draffig ac allyriadau<br>• Llai o ddewisiadau teithio llesol<br>• Yn anghydnaws â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol<br><br>"*Mae anfon plant mewn bysys yn cynyddu allyriadau a thraffig*."<br><br>"*Bydd plant yn colli'r cyfle i gerdded neu feicio i'r ysgol*."<br><br>"*Mae'r cynnig yn mynd yn groes i Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol*." | Fe fydd na fwy o deithio i rai disgyblion sydd wedi'u heffeithio'n uniongyrchol gan y cynnig ac fe allai hyn arwain at fwy o draffig ar y ffyrdd ac allyriadau.<br><br>Serch hynny, mae manteision hirdymor y cynnig yn cynnwys cael gwared ar adeiladau aneffeithlon o'r portffolio addysg, a'u disodli gyda chyfleusterau modern, di-garbon ac effeithlon o ran ynni, gan leihau allyriadau carbon gweithredol yn sylweddol. Fe ellir cynnwys datrysiadau cludiant cynaliadwy mewn i ddarparu'r cynnig lle y bo'n bosibl.<br><br>Er na fydd rhai plant yn gallu cerdded neu feicio i'r ysgol o'u dewis fe fydd rhai eraill yn manteisio ar isadeiledd teithio llesol gwell.<br><br>Fel y manylir yn yr Asesiad o Effaith Integredig, mae'r cynnig yn cyfrannu at nodau ac egwyddorion datblygu cynaliadwy o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. |

| | |
|---|---|
| | Tra bod pryderon am effaith amgylcheddol a lles yn ddilys a phwysig, gellir ystyried y cynigion yn rhai sy'n cefnogi cynaliadwyedd a nodau lles yn yr hirdymor, yn enwedig o'u hystyried yn y cyd-destun llawn.<br><br>1. "Mae anfon plant mewn bysys yn cynyddu allyriadau a thraffig."<br><br>Mae'r cynllun yn cynnwys defnyddio bysiau modern, allyriadau isel neu drydan, sydd yn llawer mwy glân na cherbydau hŷn.<br><br>Gall un bws gymryd lle dwsinau o siwrneiau car unigol, gan leihau traffig ac allyriadau'n gyffredinol, yn enwedig yn ystod oriau prysur mynd â phlant i'r ysgol a'u casglu.<br><br>Gall defnyddio'r llwybrau gorau a chydlynu cynllunio cludiant leihau milltiroedd a thagfeydd diangen ymhellach.<br><br>2. "Bydd plant yn colli'r cyfle i gerdded neu feicio i'r ysgol."<br><br>Mewn nifer o ardaloedd, yn enwedig ardaloedd gwledig neu lled-wledig, nid yw cerdded neu feicio'n ddiogel neu'n ymarferol ar hyn o bryd oherwydd pellter neu gyflwr ffyrdd.<br><br>Pan mae teithio llesol yn hyfyw, gellir parhau i gefnogi mentrau sy'n cyd-fynd megis "bysys cerdded" neu lwybrau beidio diogel.<br><br>Mae'r cynnig yn galluogi ar gyfer buddsoddiad wedi'i dargedu mewn isadeiledd teithio llesol lle bydd yn cael yr effaith mwyaf.<br><br>3. "Mae'r cynnig yn mynd yn groes i Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol."<br><br>Mae'r cynnig yn cyd-fynd â golau'r Ddeddf drwy hyrwyddo cynaliadwyedd, tegwch a chanlyniadau addysgiadol gwell yn yr hirdymor.<br><br>Mae rhan allweddol o'r cynllun yn cynnwys cael gwared ar sawl adeilad ysgol sy'n hen ac aneffeithlon gyda chyfleusterau modern, di- |

<table>
<tr><td></td><td>garbon. Bydd yr adeiladau newydd yma:<br><br>Yn lleihau defnydd ynni ac allyriadau carbon yn sylweddol.<br><br>Darparu amgylcheddau dysgu mwy iach a mwy modern.<br><br>Lleihau costau cynnal a chadw ac effaith amgylcheddol dros amser.<br><br>Trwy gyfuno adnoddau mewn i lai o adeiladau gwyrddach, mae'r cynllun yn cefnogi dyfodol gwydn, carbon isel i Gymru.</td></tr>
<tr><td>Y gobaith am gyfleusterau addysg Catholig modern, o ansawdd uchel (10 o sylwadau)<br><br>Mynegodd rhai ymatebwyr gefnogaeth i'r cynnig gan ei fod yn gyfle i sicrhau dyfodol hirdymor addysg Gatholig yn Sir y Fflint. Fe wnaethant dynnu sylw at fanteision posibl megis:<br><br>• Mynediad at gyfleusterau modern, diweddar na all yr ysgolion presennol eu darparu (e.e. hen gampfeydd, dim llawer o le y tu allan).<br><br>• Siwrneiau addysgiadol didrafferth o'r blynyddoedd cynnar drwodd i uwchradd, gan roi cysondeb i blant a theuluoedd.<br><br>• Y cyfle i adeiladu ysgol fodern sydd yn gallu cyflwyno'r cwricwlwm yn effeithiol a chynhwysol, paratoi disgyblion yn well ar gyfer y dyfodol.<br><br>• Amgylchedd allai wasanaethu nid yn unig y gymuned Gatholig, ond hefyd y boblogaeth leol ehangach, gan gefnogi amrywiaeth, cynwysoldeb a gwerthoedd yr Efengyl.<br><br>"Mae'r cynnig hwn yn hanfodol i sicrhau dyfodol addysg Gatholig yn Sir y Fflint ac mae'n darparu cyfleusterau modern,</td><td>Mae'r Cyngor yn croesawu'r gefnogaeth y mae'r cynnig wedi'i gael. Gall cyfleusterau newydd, modern wedi'u dylunio ar gyfer cwricwlwm modern, wedi'u hadeiladu i safonau di-garbon gael effaith cadarnhaol sylweddol ar addysg ein plant.<br><br>Gall amgylcheddau dysgu gwell wella lles disgyblion a staff, gellir cynnwys y technolegau diweddaraf mewn i'r dyluniad a gellir darparu offer newydd, ac fe all y cyfan wella'r profiad dysgu.<br><br>Bydd lleihau llefydd gwag a chostau cynhaliaeth ar adeiladau aneffeithlon yn caniatáu i fwy o adnoddau gael eu hailddosbarthu i'r meysydd sydd eu hangen, gan helpu dysgwyr eraill.<br><br>Bydd y cyfleusterau'n cael eu dylunio gan gadw at safonau'r Bwletin Adeiladu ac, ochr yn ochr â'r ystafelloedd dosbarth cyffredinol, fe allan nhw gynnwys:<br><br>• Cynradd<br><br>Gofodau ymarferol arbenigol, llyfrgell, ystafelloedd ar gyfer grwpiau bach, ystafelloedd anogaeth<br><br>• Uwchradd<br><br>Ardaloedd pynciau penodol fel TGCh, Celf, Drama, Gwyddoniaeth, Cerddoriaeth, Dylunio a Thechnoleg</td></tr>
</table>


| | |
|---|---|
| *cwricwlwm esmwyth, a darpariaeth ragorol i bobl ifanc*."<br>"*Mwyaf hyfyw i gau, uno ac adeiladu ysgolion newydd*."<br>"*Mae'r uno yn gyffrous gan fod cyfleusterau ein hysgol uwchradd yn hen; bydd moderneiddio yn creu amgylchedd dysgu gwell i ddisgyblion*."<br>"*Mae'n gwneud synnwyr ariannol, yn cynnig pontio esmwyth ac yn sicrhau addysg Gatholig o safon i bob oedran yn Sir y Fflint*." | Ar gyfer pob grŵp oed bydd yr adeilad hefyd yn cynnwys ardaloedd staff, cyfleusterau cegin a digon o ardaloedd tu allan fel caeau chwarae, arwynebau caled, ardaloedd anffurfiol meddal, ardaloedd cynefinoedd ac ati. |

Tabl 5: Themâu Ymateb i'r Cynnig

### 4.4. Effaith ar y Gymraeg

56. Roedd y ffurflen ymateb yn cynnwys rhan yn gofyn i unigolion ddarparu eu safbwyntiau ar effeithiau posibl y gallai'r cynnig hwn ei gael ar y Gymraeg.

57. Mae Ffigur 4 yn dangos mai'r ymateb mwyaf poblogaidd i bob un o'r 5 cwestiwn oedd y byddai'r cynnig yn cael effaith 'niwtral' ar y Gymraeg.




Ffigur 4: Effaith ar y Gymraeg

### 4.4.(a) Themâu yn ymwneud â'r Gymraeg

58. Gofynnwyd i bobl roi eu sylwadau mewn blwch sylwadau a gofynnwyd iddynt sut y gellir cynyddu effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau negyddol (Tabl 6)

| Themâu ac Enghreifftiau o Sylwadau | Ymateb CSFf |
|---|---|
| **Barn am Gymraeg yn y Cwricwlwm (55 o sylwadau)**<br>Roedd rhai yn cefnogi mwy o wersi Cymraeg; roedd eraill yn teimlo bod y Gymraeg yn cael ei blaenoriaethu ar draul pynciau craidd fel Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth.<br>"*Nid yw Cymraeg mor bwysig fel addysg graidd*."<br>"*Trin y ddwy iaith yn gyfartal*."<br>"*Gormod o fias tuag at y Gymraeg*."<br><br>Roedd nifer o sylwadau'n dadlau bod y ffocws ar y Gymraeg yn tynnu oddi ar faterion addysgiadol ehangach —yn benodol safon yr ysgol, darpariaeth AAA, staffio a gwella ar ôl Covid.<br>"*Dylai'r ffocws fod ar bynciau craidd yn gyntaf*."<br>"*Rhoi'r gorau i'w orfodi ar bobl*."<br>"*Mae disgyblion angen sefydlogrwydd, nid amhariaeth*." | Rydym yn cydnabod bod y Gymraeg yn werthfawr o ran treftadaeth ddiwylliannol ac fel sgil ieithyddol a all gynyddu hyder ac annibyniaeth er mwyn dysgu ieithoedd eraill. Ar yr un pryd, rydym yn gwerthfawrogi bod rhai teuluoedd yn teimlo na ddylai blaenoriaethau academaidd eraill neu bynciau craidd gael eu taflu i'r cysgod. Ein nod yw darparu cwricwlwm cytbwys sy'n cefnogi dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ochr yn ochr â phynciau craidd a chyfleoedd ieithyddol eraill, gan sicrhau bod addysg pob plentyn yn gyflawn ac yn eu paratoi i fod yn ddinasyddion ar gyfer y dyfodol. Mae datblygu a hyrwyddo'r Gymraeg wedi'u hamlinellu'n glir mewn deddfwriaeth sef Deddf yr Iaith Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025, sydd yn gosod targedau uchelgeisiol—megis cyflawni o leiaf miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2025 ac mae'n sefydlu fframwaith cadarn i integreiddio'r iaith mewn i addysg, bywyd cyhoeddus a dysgu gydol oes. |
| **Amherthnasedd Tybiedig i'r Cynnig i Gau Ysgolion (48 o sylwadau)**<br>Fe gwestiynodd llawer o ymatebwyr pam fod y Gymraeg hyd yn oed yn rhan o'r ymgynghoriad, gan nad oedd yn gysylltiedig â'r mater craidd o gau ysgolion.<br>"*Beth sydd â hyn i'w wneud â'r ymgynghoriad?*"<br>"*Does gan iaith ddim i'w wneud â'r cynnig hwn*."<br>"*Siawns nad ydi o'n berthnasol*." | Rydym yn deall bod rhai ymatebwyr yn teimlo nad oedd cwestiynau yn ymwneud â'r Gymraeg yn berthnasol i'r ymgynghoriad penodol hwn. Fodd bynnag, fel Awdurdod Lleol yng Nghymru, mae gennym ni ddyletswydd statudol i ystyried effaith unrhyw ad-drefnu ysgolion ar y ddarpariaeth Gymraeg ac i adrodd ar sut y mae'r cynigion yn cyd-fynd â strategaethau lleol a chenedlaethol yn ymwneud â'r Gymraeg. Mae Safonau'r Gymraeg hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru i ystyried effaith polisïau ac ymgynghoriadau ar y Gymraeg, gan sicrhau nad yw'n cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg a'r effaith ar gyfleoedd i unigolion ddefnyddio'r Gymraeg. Mae cynnwys y cwestiynau hyn yn sicrhau |

| | |
|---|---|
| | ein bod yn bodloni'r cyfrifoldebau hyn ac yn ystyried pob agwedd yn ymwneud â'r Gymraeg, mewn dull cyson a thryloyw. Mae hyn hefyd yn helpu i lywio ein Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Caiff rhagor o wybodaeth yn ymwneud â hyn ei chynnwys yn yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ar gyfer yr ymgynghoriad hwn ar ein gwefan.<br><br>https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Schools/School-Modernisation-Related/Catholic-Education-Proposal.aspx |
| **Hunaniaeth Tref Ffiniol ac Ymarferoldeb (44 o sylwadau)**<br><br>Fe soniodd ymatebwyr yn gyson am y lleoliad ger y ffin â Lloegr, gan nodi nad ydi'r Gymraeg yn cael ei siarad yn gyffredin ac yn aml nad yw'n berthnasol i fywyd bob dydd.<br><br>"*Mae Saltney yn ardal Saesneg ei hiaith*."<br><br>"*Does neb yn siarad Cymraeg yn ein cymuned*."<br><br>"*Dydi Sir y Fflint ddim wir yn ardal Gymraeg ei hiaith*." | Rydym yn gwerthfawrogi'r farn am gyd-destun diwylliannol unigryw Saltney fel cymuned ffiniol ac ardaloedd eraill lle nad yw'r iaith mor gyffredin. Rydym yn cydnabod bod hyrwyddo'r Gymraeg mewn ardaloedd lle siaredir Saesneg yn bennaf yn cyflwyno heriau penodol a bod angen i unrhyw ymdrechion fod yn gytbwys.<br><br>Mae Cyngor Sir y Fflint yn credu bod yr iaith Gymraeg yn eiddo i bawb. Mae ein hymagwedd yn anelu i gynnig cyfleoedd cynhwysol ac ymgysylltiol ar gyfer dysgu Cymraeg. Rydym yn ymroddedig i gefnogi, ehangu a hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg gan sicrhau bod yr holl ddisgyblion a'r teuluoedd yn cael y cyfle i wella eu sgiliau Cymraeg hyd yn oed mewn ardaloedd lle nad yw o bosibl yn cael ei siarad yn eang. |
| **Pryder y bydd cau ysgolion yn niweidio'r Gymraeg (38 o sylwadau)**<br><br>Thema fawr oedd y byddai cau ysgolion—yn enwedig ysgolion Catholig—yn gwthio teuluoedd i ysgolion Saesneg dros y ffin, gan leihau cyfleoedd i blant ddysgu neu ddefnyddio'r Gymraeg.<br><br>"*Bydd cau ysgol Sant Anthony yn gwthio plant allan o addysg Gymraeg*."<br><br>"*Dim addysg Gatholig Gymraeg am filltiroedd*."<br><br>"*Nid yw'r cynnig yma'n cynnig unrhyw elfennau cadarnhaol i gynyddu'r Gymraeg*." | Rydym yn deall y pryderon ynglŷn â sut y gall newidiadau i ysgolion effeithio'r defnydd o'r Gymraeg, yn arbennig yr ofn y gallai cau Ysgol Sant Anthony leihau'r cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio a datblygu eu hyder yn y Gymraeg.<br><br>Pe byddai'r cynnig yn mynd rhagddo, fe fyddwn yn gweithio'n agos gyda chymuned yr ysgol i sicrhau bod dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg a'r defnydd o'r iaith yn parhau i gael ei gefnogi a'i annog yn yr amgylchedd newydd, gan helpu'r holl ddisgyblion i ymgysylltu'n gadarnhaol gyda threftadaeth ddwyieithog Cymru. |

| | |
|---|---|
| **Cefnogaeth i'r Gymraeg fel Treftadaeth Ddiwylliannol (27 o sylwadau)**<br>Tra bod nifer wedi cwestiynu ei ddefnydd ymarferol, fe fynegodd lawer gefnogaeth dros ddysgu Cymraeg i gadw diwylliant, yn enwedig mewn ardaloedd fel yr Wyddgrug.<br>"*Dyma eu treftadaeth ddiwylliannol ac ni ddylem ei golli*."<br>"*Mae'r Gymraeg yn beth da, ond dim ond yn bellach mewn i Gymru y mae'n berthnasol*."<br>"*Hyrwyddwch y Gymraeg ble bynnag y bo'n bosibl*." | Rydym yn croesawu'r sylwadau cadarnhaol sy'n cydnabod gwerth diwylliannol ac addysgol dysgu Cymraeg. Mae hyrwyddo'r Gymraeg yn flaenoriaeth leol a chenedlaethol ac rydym yn falch bod cynifer o deuluoedd yn gweld pwysigrwydd hyn. Rydym hefyd yn deall fod y gefnogaeth hon yn aml yn cael ei chydbwyso gyda phryderon ynglŷn â'r blaenoriaethau addysgol ehangach, fel darpariaeth ysgolion a lles disgyblion. Rydym eisiau sicrhau teuluoedd fod ein ffocws, yn ogystal ag ar addysg Gymraeg, hefyd yn parhau ar ddarparu addysg gynhwysol o ansawdd uchel i bob dysgwr. |
| **Addysg sy'n seiliedig ar ffydd a'r Gymraeg (18 o sylwadau)**<br>Roedd yna bryder cryf y byddai cael gwared ar ysgolion cynradd Catholig yn cael gwared ar fynediad i addysg Gatholig Gymraeg yn llwyr.<br>"*Cadw Sant Anthony—yr unig ysgol Gatholig Gymraeg*."<br>"*Mae'r cynnig hwn yn gorfodi teuluoedd i groesi'r ffin*."<br>"*Cefnogi'r Gymraeg mewn addysg sy'n seiliedig ar ffydd*." | Rydym yn deall y pryder y gall cael gwared ar y cynnig Addysg Gatholig mewn ardal ffiniol wthio rhai pobl i ystyried addysg Saesneg sy'n seiliedig ar ffydd.<br>Serch hynny, mae yna ddigon o lefydd mewn ysgolion Catholig eraill yn Sir y Fflint i allu derbyn pob disgybl, petaent yn dymuno parhau â'u haddysg yng Nghymru.<br>Bydd y Cyngor yn gweithio'n agos gydag ysgolion i sicrhau bod teuluoedd yn cael eu cefnogi drwy'r broses bontio a'u bod yn parhau o fewn y system addysg Gymraeg.<br>Mae'r cynnig yn cefnogi Cymraeg mewn addysg Gatholig gan fod adnoddau'n cael eu dyrannu'n fwy effeithlon gan wneud y sector yn fwy hyfyw ac yn gynaliadwy yn yr hir dymor. |
| **Awgrymiadau ar gyfer Hyrwyddo'r Gymraeg yn Gadarnhaol (12 o sylwadau)**<br>Fe ddarparodd rai syniadau rhagweithiol megis dosbarthiadau cymunedol, digwyddiadau diwylliannol, arwyddion dwyieithog, a hyfforddiant gwell i staff.<br>"*Cynnig gwersi Cymraeg am ddim i'r gymuned*."<br>"*Annog mwy o ddwyieithrwydd yn yr Wyddgrug*."<br>"*Cynnwys plant mewn gweithgareddau diwylliannol Cymraeg*." | Rydym yn gwerthfawrogi'r awgrymiadau sydd wedi cael eu cynnig i wella dysgu ac ymgysylltu â'r Gymraeg, gan gynnwys darparu dosbarthiadau Cymraeg i rieni, gwella hyfforddiant i staff, a chynnwys y gymuned ehangach. Mae'r syniadau yma'n cyd-fynd yn dda â'n hymrwymiad i greu sir a gwlad sydd yn gynyddol ddwyieithog a byddant yn cael eu hystyried yn ofalus yn rhan o ymdrechion parhaus i hyrwyddo'r Gymraeg yn ein hysgolion a chymunedau. Mae gan y Cyngor Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg fanwl y gellir ei ddarllen yma |

| | |
|---|---|
| | https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Schools/Welsh-Education-Strategic-Plan.aspx |

Tabl 6: Themâu Effaith ar y Gymraeg

## 4.5. Ymateb Disgyblion Ysgol

### 4.5.(a) Ffurflenni Ymateb

59. Cafwyd cyfanswm o 20 copi papur gan blant a phobl ifanc o Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Anthony, Saltney.

60. O'r 20 o ymatebion, disgrifiodd 19 ohonynt y cynnig fel "drwg" mewn rhyw ffordd a dywedodd un plentyn "Dwi ddim yn siŵr achos dwi'n hoffi'r ysgol yma ond dwi eisiau fo'n fwy".

61. Rhai o'r rhesymau dros feddwl fod y cynnig yn ddrwg oedd:

- Mwy o fwlio mewn ysgolion mwy, methu beicio na cherdded i'r ysgol
- Mae'r ysgol fawr yn rhy fawr
- Beth os ydi o'n rhy bell?
- Pam cau yn 2026 pan fyddwch chi'n adeiladu'r ysgol enfawr yn 2029?
- Mae'n mynd i fod yn orlawn gan ei bod yn ysgol enfawr
- Bydd athrawon yn colli eu swyddi

62. Roedd awgrymiadau eraill yn cynnwys:

- Gwario mwy o arian ar yr ysgolion sydd eisoes gennym
- Peidiwch â gwastraffu £55 miliwn
- Gwariwch arian i ddiweddaru ein hysgol
- Fe allech ddefnyddio'r 55 MILIWN O BUNNOEDD yr ydych yn ei fuddsoddi mewn i'r ysgolion rydych chi'n eu cau
- Rhowch fwy o arian i staff a rhowch rywfaint o'r pethau rydym eu hangen i'n diddanu ni blant
- Fe fydd yn bell iawn i fynd i'r ysgol a does gan rai pobl ddim car
- Dwi ddim yn meddwl y dylai plant Blwyddyn 11 gymysgu gyda phlant Blwyddyn 1

### 4.5.(b) Digwyddiadau Disgyblion

63. Yn ystod sesiynau unigol ym mhob un o'r chwe Ysgol Gatholig, gwahoddwyd disgyblion i fynegi eu barn ar bedwar maes:

- Pethau maent yn ei hoffi am eu hysgol bresennol ac awgrymiadau ar gyfer newid (**Error! Reference source not found.**)

- Teimladau petai eu hysgol yn cau (**Error! Reference source not found.**)
- Pethau da a drwg am ysgol newydd (**Error! Reference source not found.**)
- Unrhyw beth arall y gellir ei wneud yn lle'r cynnig (**Error! Reference source not found.**)

**Beth ydych chi'n ei hoffi am eich ysgol a beth hoffech chi ei newid?**

| **Hoffi** | **Newid** |
|---|---|
| Ddim yn rhy fawr | Bwyd gwahanol |
| Athrawon neis | Cymysgu dosbarthiadau ar gyfer gweithgareddau |
| Ffrindiau | Mwy o egwyliau ac amser aur |
| Bwyd da | Ei wneud yn fwy |
| Ysgol Goedwig | Dim |
| Lleoliad | Offer Newydd |
| Gweithgareddau | Gosod pwll nofio a llithren ddŵr |
| Clybiau ar ôl ysgol | Mwy o weithgareddau ar ôl ysgol |
| Teithiau ysgol | |

Ffigur 5: Pethau i'w hoffi am yr ysgol bresennol a newidiadau

**Sut fyddech chi'n teimlo pe byddai eich ysgol i gau?**

Trist, Dan bwysau, Blin, Gofidus, Cynddeiriog, Isel, Pwdlyd, Ofnus, Nerfus, Dryslyd, Yn ddig, Siomedig, Hapus, Rhyfedd, Lloerig

Ffigur 6: Teimladau disgyblion am gau

**Beth ydych chi'n credu fyddai'r elfennau da am gael ysgol newydd sbon?**

| Elfennau da am ysgol newydd | Elfennau drwg am ysgol newydd |
|---|---|
| Ffrindiau newydd | Colli ffrindiau (os ydyn nhw'n mynd i ysgol wahanol) |
| Dysgu pethau newydd | Teithio'n bellach |
| Cyfleusterau gwell | Bwlio |
| Dim | Rhy fawr, gormod o bobl |
| Trosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd yn ddidrafferth | Costau Cludiant |
| Clybiau brecwast | Dryslyd |
| Clybiau ar ôl ysgol | Pontio i ddisgyblion ADY |
| Athrawon newydd | Llawer o draffig mewn un lle |
| | Efallai y bydd rhaid symud tŷ |
| | Newid gwisg ysgol |

Ffigur 7: Elfennau da a drwg am ysgol newydd

**Oes yna unrhyw beth y byddech chi'n hoffi ei weld yn digwydd yn lle hyn?**

Cadw popeth fel ag y mae
Defnyddio'r arian i wella'r ysgolion
Adeiladu mwy o ysgolion
Uno Sant Anthony a Sant David, adeiladu un ysgol rhwng y ddwy gymuned
Adeiladu ysbyty
Adeiladu'r ysgol newydd ond cadw Sant Anthony
Adeiladu mwy o ysgolion Catholig

Ffigur 8: Awgrymiadau eraill

### 4.6. Ymateb Estyn

64. Isod y mae ymateb Estyn i'r cynnig yn llawn.

65. Mae pob sylw wedi cael ei wahanu pan fo angen er mwyn i'r Cyngor ymateb.

66. Mae'r ymateb llawn, heb atebion y Cyngor, wedi'i gynnwys yn Atodiad C.

| **Sylwadau Estyn** | **Ymateb CSFf** |
|---|---|
| **Disgrifiad a manteision** | |
| Ymddengys bod yr awdurdod lleol wedi cyflwyno sail resymegol glir yn amlinellu'r rhesymau dros y cynnig. Mae'r rhain yn cynnwys niferoedd disgyblion sy'n gostwng ar draws y pedair ysgol, ynghyd ag ansawdd dirywiol yr adeiladau a'r cyfleusterau ar bob safle. Mae'r trefniadau presennol yn lleihau gallu pob ysgol i gyfeirio cyllid ar gyfer addysg yn y ffordd fwyaf effeithlon. Er mwyn ymateb i hyn, mae'r awdurdod lleol wedi cynnal ymarfer gwerthuso opsiynau, sy'n dod i'r casgliad mai ad-drefnu'r ddarpariaeth Gatholig yn yr ardal sy'n ffafriol. | Nodwyd |
| Mae'r awdurdod lleol wedi darparu disgrifiad addas o fanwl o'r cynnig, ynghyd ag amserlen amcangyfrifedig ar gyfer gweithdrefnau statudol. Dywed yr awdurdod lleol, gan fod digon o leoedd gwag mewn ysgolion lleol eraill, ynghyd â lleoedd gwag ar y safle cyfunol arfaethedig, na fyddai angen unrhyw drefniadau dros dro i ddarparu lleoedd ar gyfer disgyblion o'r safleoedd sy'n cau. Mae hyn yn ymddangos yn rhesymol. | Nodwyd |
| Yn ogystal â'r brif ddogfen ymgynghori, mae'r awdurdod lleol wedi cynnwys fersiwn gryno a fersiwn sy'n addas i blant ar wefan yr ymgynghoriad. Mae'r ddogfen ymgynghori sy'n addas i blant yn cynnwys fframwaith ar gyfer ymatebion plant. Ymddengys bod y ddwy ddogfen yn glir ac yn ddefnyddiol. | Nodwyd |
| Mae'r ddogfen ymgynghori'n cymharu'r cynnig â'r trefniadau presennol yn fanwl. Mae'r cyngor yn amlinellu sawl mantais ar gyfer disgyblion. Mae'r rhain yn cynnwys pontio rhwyddach mewn lleoliad 'ysgol pob oed', y gallu i fanteisio ar gyfleoedd ehangach mewn darpariaeth fwy, a mwy o gyfleoedd i ddatblygu iechyd a lles trwy gyfleusterau awyr agored gwell. Yn ogystal, mae'r ymgynghoriad yn amlinellu sut mae'r cynnig yn cyd-fynd â strategaethau cenedlaethol a lleol ar gyfer trawsnewid addysg. | Nodwyd |
| Mae'r awdurdod lleol wedi nodi ychydig o risgiau i ansawdd safonau addysg oherwydd cyfnod tybiedig o ansicrwydd ar gyfer disgyblion a staff. Mae'r risgiau'n cynnwys y | Nodwyd |

| **Sylwadau Estyn** | **Ymateb CSFf** |
|---|---|
| posibilrwydd o golli disgyblion i ddarpariaeth nad yw'n ddarpariaeth Gatholig. Mae'r ddogfen ymgynghori'n cyflwyno mesurau lliniaru rhag y risgiau hyn sy'n ymddangos yn addas. | |
| Mae'r awdurdod lleol wedi ystyried ystod o opsiynau amgen yn fanwl. Mae'r rhain yn cynnwys y posibilrwydd o gynnal y darpariaethau cynradd Catholig yn Saltney a'r Wyddgrug ac uno Ysgol Gynradd Gatholig a Gynorthwyir yn Wirfoddol y Santes Fair ac Ysgol Uwchradd Gatholig a Gynorthwyir yn Wirfoddol Sant Richard Gwyn, sydd wedi'u lleoli ar safleoedd cyfagos. Ymddengys bod yr awdurdod lleol wedi cynnal dadansoddiad trylwyr o bob opsiwn ac wedi darparu cyfiawnhad sy'n ymddangos yn rhesymol dros ymgynghori ar y cynnig. | Nodwyd.<br>I egluro pethau, dewiswyd y Dewis a Ffefrir oherwydd ei fod yn darparu'r cydbwysedd gorau rhwng y manteision a'r anfanteision.<br>Roedd gan bob opsiwn arall anfanteision sylweddol a oedd yn eu dileu o'r ystyriaethau.<br>Ni fyddai opsiynau 1 a 2 yn:<br>• Mynd i'r afael â'r nifer uchel o lefydd dros ben<br>• Darparu datrysiad hirdymor cynaliadwy<br>• Cyfrannu at Strategaeth Lleihau Carbon CSyFf<br>Mae opsiynau 3, 5 a 6 yn gofyn am fuddsoddiad ariannol sylweddol (yr un peth ag opsiwn 4) ond ni fyddai Opsiwn 3 yn:<br>• Mynd i'r afael â'r problemau cynnal a chadw yn y pedair ysgol gynradd arall<br>• Mynd i'r afael â'r nifer uchel o lefydd dros ben yn ddigonol<br>• Darparu datrysiad hirdymor cynaliadwy Cyfrannu at Strategaeth Lleihau Carbon CSyFf<br>Ond byddai Opsiwn 5 yn:<br>• Tynnu pedair ysgol o'u cymunedau (yn hytrach na ddwy a gynigir)<br>• Cynyddu amser teithio mwy o ddisgyblion<br>• Cynyddu costau cludiant yn sylweddol o gymharu â'r dewis a ffefrir<br>Mae Opsiwn 6 yn debyg i'r dewis a ffefrir (Opsiwn 4) ond gall ffedereiddio Ysgol y Santes Gwenffrewi ac Ysgol yr Hybarch Edward Morgan fod yn gam yn rhy bell ar hyn o bryd. Byddai'r newid mawr a gynigir yn gofyn am lawer o amser ac adnoddau i sicrhau ei fod yn cael ei ddarparu yn y ffordd gryfaf. Hefyd, gall ceisio ffedereiddio a sefydlu trefniadau cydweithio rhwng dwy ysgol nad ydynt yn rhan o brif agwedd y |

| **Sylwadau Estyn** | **Ymateb CSFf** |
|---|---|
| | cynnig fod yn heriol ac effeithio'n negyddol ar yr ysgolion hynny. |
| Mae'r cynnig wedi nodi y bydd pellteroedd cerdded ac amseroedd teithio yn cynyddu'n sylweddol i rai disgyblion ac y bydd gofyniad am gludiant ychwanegol pe<br>byddai'r ysgolion yn cael eu cau. Mae'r awdurdod lleol wedi cynnwys Asesiad o'r Effaith ar Gludiant yn y cynnig. Ymddengys bod yr asesiad yn cynnwys manylion addas sy'n cynnig cyfrifiadau defnyddiol yn amlinellu'r gwahaniaeth yn y pellter teithio cyfartalog ar gyfer yr holl ddisgyblion dan sylw. Dywed y cynnig y bydd cludiant am ddim rhwng yr ysgol a'r cartref ar gael, yn unol â pholisi cludiant rhwng y cartref a'r ysgol yr awdurdod lleol ac mae'n darparu amcangyfrif o'r gost. | Nodwyd |
| Mae'r cynnig yn amlinellu effaith negyddol cau Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Anthony ac Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Dewi Sant ar y ffordd y mae grwpiau ffrindiau presennol yn rhyngweithio â'i gilydd. Nid yw'r ymgynghoriad yn awgrymu sut bydd yr awdurdod lleol yn ceisio mynd i'r afael â'r mater hwn. | Er y gall y Cyngor liniaru nifer o agweddau negyddol y cynnig, mae yna rai nad oes modd eu lliniaru.<br>Mae yna ddigon o gapasiti yn yr ysgol gynradd Gatholig agosaf nesaf i ddisgyblion Sant Anthony fynychu, petai eu rhieni/gofalwyr yn dewis. Yn yr un modd, fe fydd yna le yn yr ysgol unedig i ddisgyblion o Sant David os mai dyna mae'r rhiant/gofalwr ei eisiau.<br>Trwy sicrhau y gall pob disgybl o un ysgol benodol drosglwyddo i'r un ysgol arall, mae'r Cyngor wedi lleihau'r posibilrwydd y bydd grwpiau ffrindiau'n cael eu torri.<br>Serch hynny, ni all y Cyngor liniaru effeithiau negyddol posibl ar y ffordd y mae grwpiau ffrindiau'n rhyngweithio ar hyn o bryd gan fod yna ddau ffactor sylweddol na ellir eu hosgoi:<br>1. Pan mae ysgol yn cael ei thynnu o gymuned, mae'n rhaid i'r rhiant/gofalwr ddewis ysgol arall i'w plentyn/plant fynychu. Petai pob disgybl yn trosglwyddo i'r ysgol arall a gynigir gan y cynnig yna byddai'r grwpiau ffrindiau'n parhau gyda'i gilydd, ond fe allai eu hamser cymdeithasol gael ei leihau gan amser teithio fel enghraifft.<br>2. Yn ogystal, fe all rhieni/gofalwyr ddewis ysgol wahanol i rieni/gofalwyr plant yn yr |

| **Sylwadau Estyn** | **Ymateb CSFf** |
|---|---|
| | un grŵp ffrindiau, sy'n golygu y gallai'r grwpiau yna chwalu.<br><br>Rydym yn deall bod cyfeillgarwch sy'n cael ei ffurfio yn ystod addysg gynnar yn chwarae rôl hollbwysig yn lles emosiynol, datblygiad cymdeithasol ac ymdeimlad o berthyn plant. Mae'r cynnig yn cydnabod yr effaith yma, ac rydym yn cydnabod y gallai'r ddogfen ymgynghori fod wedi darparu mwy o eglurder o ran sut mae'r Awdurdod Lleol yn bwriadu cefnogi disgyblion drwy'r cyfnod pontio yma.<br><br>Er mwyn mynd i'r afael â hyn, mae'r Awdurdod Lleol wedi ymrwymo i:<br><br>Hwyluso gweithgareddau pontio megis digwyddiadau ysgol ar y cyd, systemau bydi, a rhaglenni allgyrsiol a rennir i helpu i gynnal a chryfhau cyfeillgarwch presennol.<br>Darparu cefnogaeth emosiynol a bugeiliol drwy staff cefnogi'r ysgol a thimau lles i helpu plant addasu i amgylcheddau newydd.<br>Ymgysylltu â theuluoedd a chymunedau i sicrhau bod y cynlluniau pontio yn adlewyrchu anghenion a dewisiadau disgyblion a rhieni.<br>Monitro effaith y cyfnod pontio ar les ac integreiddiad cymdeithasol plant, a gwneud addasiadau fel y bo angen. |
| Ymddengys bod y cyngor wedi dangos effaith y cynnig ar leoedd gwag yn effeithiol. Mae rhagolygon yn rhagweld y bydd y lleoedd gwag hyn yn cynyddu i 298 ar draws yr ysgolion cynradd a 258 yn yr ysgol uwchradd erbyn mis Medi 2029. Mae'r cyngor yn dangos lle nad yw disgyblion cynradd yn dymuno mynychu'r ysgol gyfunol arfaethedig, bod digon o le iddynt fynychu ysgolion lleol eraill neu'r ysgol gynradd Gatholig agosaf. Fodd bynnag, nid yw'r ymgynghoriad yn glir ynghylch p'un a fyddai'r awdurdod lleol yn darparu cludiant i ddisgyblion pe na fyddant yn dymuno mynychu'r ysgol newydd. Pe byddai'r cynnig yn mynd rhagddo, mae'n rhesymol i'r awdurdod lleol awgrymu y byddai nifer y lleoedd gwag yn gostwng. | Lleoedd gwag - Nodwyd<br>Darpariaeth Cludiant – Efallai y bydd rhieni/gofalwyr sy'n dewis ysgol arall ar gyfer eu plentyn/plant, yn lle eu hysgol Gatholig agosaf, yn gymwys am gludiant am ddim. Caiff pob cais ei asesu ar sail unigol yn unol â pholisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol yr Awdurdod Lleol. |

| **Sylwadau Estyn** | **Ymateb CSFf** |
|---|---|
| Mae'r awdurdod lleol wedi ystyried effaith y cynnig ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr awdurdod lleol. Daw'r cynnig i'r casgliad syml, gan fod pob un o'r ysgolion yn ddarpariaethau cyfrwng Saesneg, na fyddai eu cau yn cynyddu nac yn lleihau argaeledd darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr ardal. Ymddengys bod hyn yn rhesymol. | Nodwyd |
| Mae'r awdurdod lleol wedi ystyried costau ariannol y cynnig yn briodol. Bydd cyllid yn mynnu benthyca cyfalaf. Mae'r ddogfen ymgynghori'n cymharu cost bresennol y pedair ysgol â chostau amcangyfrifedig yr ysgol gyfunol. Nid yw'r cynnig yn datgan yn benodol y caiff arbedion eu defnyddio i ad-dalu'r swm sy'n cael ei fenthyg. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gludiant yn darparu amcangyfrif defnyddiol o'r gost ar gyfer unrhyw gludiant ychwanegol fydd ei angen. | Ni fydd yr arbediad posibl yn cael ei ddefnyddio at bwrpas penodol, yn hytrach bydd yn cyfrannu at gyllideb addysg fwy effeithlon. Mae ad-dalu unrhyw fenthyciad wedi cael ei ystyried yn drylwyr a chyn cyhoeddi'r cynnig, ac mae'r Cyngor yn hyderus petai'r cynnig yn cael ei weithredu, bydd yr holl rwymedigaethau benthyca yn cael eu bodloni. |
| Mae'r awdurdod lleol wedi darparu Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn rhan o'r cynnig hwn. | Nodwyd |
| Mae'r awdurdod lleol wedi darparu Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned yn rhan o'r cynnig hwn. | Nodwyd |
| **Agweddau addysgol ar y cynnig** | |
| Mae'r awdurdod lleol yn cyfeirio at safonau disgyblion yn y ddogfen ymgynghori a dywed y bydd y cyfleusterau newydd yn gwella darpariaeth a chyfleoedd dysgu. Nid yw'r ddogfen ymgynghori'n gwerthuso'n ddigon da effaith y newidiadau arfaethedig ar safonau disgyblion. | Gall recriwtio i swyddi arweinyddiaeth yn y sector Gatholig fod yn heriol a gellir cynyddu'r her recriwtio yma ar gyfer ysgolion sydd â niferoedd llai o ddisgyblion a heriau cyllidebol cynyddol. Mae gan ddwy o'r ysgolion drefniadau arweinwyr dros dro ar waith. Bydd y newidiadau arfaethedig yma'n hwyluso model arweinyddiaeth gynaliadwy i gael ei ddatblygu a fydd yn darparu mwy o gapasiti i arwain hunanwerthusiad a gwella ysgolion ac felly arwain at ganlyniadau gwell i ddisgyblion. Yn adroddiad thematig Estyn (Medi 2024): Pontio a chynnydd disgyblion, fe nododd Estyn fod 'ysgolion angen gweithio gyda'i gilydd yn fwy effeithiol i sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd cyson wrth iddynt symud o ysgol gynradd i ysgol uwchradd'. Bydd y newidiadau arfaethedig yma'n cefnogi'r broses bontio i ddysgwyr, yn cynnwys drwy gynllunio cwricwlwm a |

| **Sylwadau Estyn** | **Ymateb CSFf** |
|---|---|
| | darpariaeth gyfoethog o barhad dysgu ar draws yr ystod lawn o oedran. |
| Ymddengys bod y cynnig yn rhoi ystyriaeth ddigonol i'r effaith ar les disgyblion. Mae'r brif ddogfen yn amlinellu'r effaith ddisgwyliedig ar les ac agweddau at ddysgu oherwydd adnoddau ac amwynderau gwell. Mae'r Asesiad o'r Effaith Integredig yn cydbwyso goblygiadau byrdymor newid ysgol yn erbyn manteision tymor hwy, fel ystod ehangach o gyfleoedd i ddatblygu iechyd a lles trwy ddatblygu caeau chwarae gwell ac ardaloedd natur. Mae'r ddogfen hefyd yn amlinellu darpariaeth ar gyfer cymorth bugeiliol trwy'r cyfnod pontio, yn ôl y gofyn. | Nodwyd |
| Mae'r ymgynghoriad yn ystyried yn fras effaith y cynnig ar ansawdd yr addysgu. Mae'r awdurdod lleol o'r farn y bydd yn gwella trwy'r gallu i fanteisio ar adnoddau a chyfleusterau gwell. Bydd yr ysgol newydd hefyd yn darparu cyfleoedd ychwanegol ar gyfer datblygiad proffesiynol staff ac ystod ehangach o weithgareddau cwricwlaidd. | Nodwyd |
| Dywed y cynnig y bydd y trefniadau presennol ar gyfer sicrhau lefelau priodol o anogaeth a chymorth i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ym mhob ysgol unigol yn trosglwyddo'n awtomatig i'r ysgol pob oed. Mae hyn yn cynnwys staff addysgu priodol. Fodd bynnag, dywed yr Asesiad o'r Effaith Integredig y bydd tynnu dwy ysgol o'r rhwydwaith yn lleihau cyfleoedd cyflogaeth. Nid yw'n glir a fydd yr holl staff sy'n gweithio â disgyblion ag ADY yn parhau yn eu rolau presennol ai peidio. | Mae yna nifer o ffactorau sy'n golygu na allai staff sy'n cefnogi disgyblion ADY ar hyn o bryd barhau yn eu swyddi presennol ar ôl i'r cynnig gael ei roi ar waith.<br>1. Fe allai staff ddewis chwilio am waith yn rhywle heblaw'r ysgol arall arfaethedig i'r disgybl;<br>2. Fe allai disgyblion drosglwyddo i ysgol heblaw'r dewis arfaethedig (Dewis Rhieni), lle gallai staff gael eu cyflogi.<br>3. Fe allai cyfleusterau newydd leihau rhywfaint o anghenion y disgybl ac felly'r gefnogaeth maent ei angen.<br>Natur unrhyw gynnig sylweddol i ad-drefnu ysgol yw y bydd pob disgybl yn profi newid. Bydd y Cyngor yn ceisio paratoi'r plentyn a'r oedolion sy'n gweithio gyda'r plentyn y ffordd orau posibl i leihau effaith y newid. Bydd anghenion yn cael eu hadolygu yn unol â chyfrifoldebau statudol y Cyngor a'u haddasu tuag at ddysgwyr unigol. |
| Mae'r cynnig o'r farn y caiff arweinyddiaeth a rheolaeth eu cryfhau trwy gyfnewid arfer effeithiol rhwng arweinwyr yr ysgolion | Nid oedd yna fwriad i awgrymu y byddai Ysgol Uwchradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Richard Gwyn yn cael ei |

| Sylwadau Estyn | Ymateb CSFf |
|---|---|
| presennol a'r profiad y maent wedi'i gronni. Fodd bynnag, nid yw'r cynnig yn ystyried y wybodaeth o'r adroddiadau Estyn diweddaraf yn ddigon dda. Yn benodol, nid yw'r ymgynghoriad yn nodi bod angen 'gwelliant sylweddol' ar Ysgol Uwchradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Richard Gwyn yn y Fflint. Felly, mae'n afresymol awgrymu ar hyn o bryd y caiff yr ysgol ei gwella trwy ei huno yn unig. | wella drwy 'uno yn unig'. Mae gan yr ysgol gynllun gweithredu cynhwysfawr ar waith ar ôl yr arolwg, gyda chefnogaeth wedi'i gytuno gan yr Awdurdod Lleol a'r Esgobaeth. Mae'r ysgol yn disgwyl y bydd Estyn yn ymweld eto yn y flwyddyn academaidd nesaf i adolygu cynnydd yn erbyn ei argymhelliad. |
| Mae sawl agwedd ar y cynnig yn awgrymu y bydd cyfleusterau gwell yn cryfhau darpariaeth y cwricwlwm a chyfleoedd dysgu yn yr ysgol. Dywed y ddogfen y caiff ymarferwyr eu cynnwys mewn dylunio'r adeilad ysgol newydd. Fodd bynnag, mae manylion pellach yn gyfyngedig, yn enwedig ynghylch cynlluniau ar gyfer sicrhau dilyniant effeithiol ar draws pob cyfnod addysg. | Y Corff Llywodraethu newydd fyddai'n gyfrifol am strwythur arweinyddiaeth yr ysgol newydd fel y cynigir. Serch hynny, byddai ysgol bob oedran yn rhoi cyfle i gyfrifoldebau arweinwyr yn yr ysgol gael eu dynodi yn rhai ar draws cyfnodau allweddol a'r ysgol gyfan. Byddai hyn yn hwyluso mwy o gyfleoedd ar gyfer datblygu cwricwlwm yn effeithiol a chynllunio ar gyfer cynnydd disgyblion. Byddai'r newidiadau arfaethedig yn arwain at ymagweddau cyson tuag at addysgu a dysgu ar draws pob oedran, gyda phontio gwell rhwng cyfnodau allweddol. |

Tabl 7: Sylwadau Estyn ac Ymateb CSFf

## 5. Camau Nesaf

67. Bydd aelodau o Gabinet Cyngor Sir y Fflint yn cael copi o'r adroddiad hwn cyn gwneud penderfyniad i symud ymlaen â'r cynnig a chyhoeddi Hysbysiad Statudol. Mae'r broses hon yn cynnwys Cyfnod Gwrthwynebu 28 diwrnod ffurfiol, a dylai unrhyw wrthwynebiadau gael eu cyflwyno yn ysgrifenedig. Yn dilyn y cyfnod yma, bydd angen i'r Cabinet ystyried adroddiad arall yn crynhoi y gwrthwynebiadau a gafwyd a phenderfynu a ddylid symud ymlaen i'w weithredu ai peidio.

68. Mae'r broses hon yn cynnwys Cyfnod Gwrthwynebu o 28 diwrnod ffurfiol, a dylai unrhyw wrthwynebiadau i'r cynnig gael eu cyflwyno yn ysgrifenedig.

69. O ganlyniad, bydd y Cabinet angen adolygu adroddiad arall sydd yn crynhoi'r gwrthwynebiadau a gafwyd a phenderfynu symud ymlaen â'i weithredu neu beidio.

70. Ni fydd unrhyw sylwadau a wneir yn erbyn y cynnig yn ystod y cyfnod ymgynghori yn cael eu trin fel gwrthwynebiadau.

71. Os bydd unrhyw ymgyngoreion yn dymuno gwrthwynebu'n ffurfiol, rhaid gwneud hyn yn ysgrifenedig o fewn y cyfnod gwrthwynebu dynodedig.

72. Bydd manylion am sut i gyflwyno gwrthwynebiad yn cael ei amlinellu'n glir yn yr Hysbysiad Statudol os penderfynir symud ymlaen.

# 6. Ffigurau a Thablau

Ffigur1: Canran o gefnogaeth ar gyfer y cynnig ........ 9
Ffigur2: Canran Cysylltiad Ymatebwyr ag Ysgolion ........ 10
Ffigur 3: Perthynas ag Ymatebwyr Ysgolion ........ 11
Ffigur 4: Effaith ar y Gymraeg ........ 30
Ffigur 5: Pethau i'w hoffi am yr ysgol bresennol a newidiadau ........ 35
Ffigur 7: Teimladau disgyblion am gau ........ 35
Ffigur 8: Elfennau da a drwg am ysgol newydd ........ 36
Ffigur 9: Awgrymiadau eraill ........ 36

Tabl 1: Nifer o Ohebiaeth a Gafwyd ........ 8
Tabl 2: Cefnogaeth ar gyfer y cynnig ........ 9
Tabl 3: Cysylltiad Ymatebwyr ag Ysgolion ........ 10
Tabl 4: Perthynas ag Ymatebwyr Ysgolion ........ 11
Tabl 5: Themâu Ymateb i'r Cynnig ........ 30
Tabl 6: Themâu Effaith ar y Gymraeg ........ 34
Tabl 7: Sylwadau Estyn ac Ymateb CSFf ........ 43

# 7. Atodiadau

### Atodiad A. Ymgyngoreion

Mae’r canlynol wedi cael gwybod drwy lythyr neu drwy e-bost fod y ddogfen hon ar gael a’u bod, pe dymunent, yn gallu derbyn copi caled.

- rhieni (a darpar rieni lle bo modd), gofalwyr a gwarcheidwaid, ac aelodau staff yr ysgolion hynny y mae’r cynigion yn effeithio arnynt;
- yn achos cynigion sy’n effeithio ar ddarpariaeth uwchradd, rhieni disgyblion sy’n mynychu ysgolion cynradd y mae disgyblion fel arfer yn trosglwyddo ohonynt i’r ysgol uwchradd honno;
- yr awdurdod cynnal neu awdurdod cynnal arfaethedig unrhyw ysgol y mae’r cynigion yn debygol o effeithio arni;
- unrhyw awdurdod lleol arall (gan gynnwys rhai yn Lloegr, lle bo hynny'n briodol) y mae’r cynnig yn debyg o effeithio arnynt gan gynnwys, yng nghyd-destun darpariaeth benodol ar gyfer Anghenion Addysgol Arbennig (AAA), unrhyw awdurdod sy’n lleoli disgyblion gydag AAA yn y Ganolfan neu’n debygol o wneud;
- yr Eglwys yng Nghymru ac Awdurdod Esgobaethol yr Eglwys Gatholig ar gyfer ardal unrhyw ysgol y mae’r cynnig yn debygol o effeithio arni
- unrhyw gorff crefyddol arall sy’n briodol ar gyfer unrhyw ysgol y mae’r cynnig yn debygol o effeithio arni
- corff llywodraethu unrhyw ysgol y mae’r cynigion yn berthnasol iddi
- corff llywodraethu unrhyw ysgolion eraill y mae’r cynigydd o’r farn y bydd y cynigion yn debygol o effeithio arnynt
- Gweinidogion Cymru;
- Aelodau Etholedig ac Aelodau o’r Senedd ac Aelodau Seneddol sy’n cynrychioli ardal y mae unrhyw ysgol sy’n destun y cynigion yn ei gwasanaethu neu y bwriedir iddi wneud;
- Estyn;
- undebau athrawon ac undebau llafur staff sy’n cynrychioli’r athrawon ac aelodau eraill o staff mewn unrhyw ysgol sy’n destun y cynigion;
- y Consortiwm Addysg Rhanbarthol perthnasol;
- Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ar gyfer yr ardal y mae unrhyw ysgol sy’n destun y cynigion yn ei gwasanaethu neu y bwriedir iddi wneud;
- unrhyw gyngor tref neu gymuned ar gyfer yr ardal y mae unrhyw ysgol sy’n destun y cynigion yn ei gwasanaethu neu y bwriedir iddi wneud;
- yn achos cynigion sy’n effeithio ar ddarpariaeth feithrin, unrhyw ddarparwyr annibynnol neu wirfoddol y mae’n bosibl yr effeithid arnynt gan gynnwys Mudiad Meithrin;

- yn achos cynigion sy’n effeithio ar ddarpariaeth feithrin, y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc a / neu Bartneriaethau Datblygu’r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant os ydynt yn bodoli;
- yn achos cynigion sy’n effeithio ar ddarpariaeth ar gyfer AAA unrhyw gorff iechyd neu drydydd sector perthnasol; sydd â buddiant;
- yn achos cynigion sy’n effeithio ar ddarpariaeth uwchradd, unrhyw sefydliadau addysg bellach sy’n gwasanaethu ardal yr ysgol; ac
- yn achos cynigion sy’n effeithio ar ddarpariaeth Gymraeg, Comisiynydd y Gymraeg.

**Atodiad B. Ffurflen Ymateb**

73. Noder: nid oes gwybodaeth am gydraddoldeb wedi'i gynnwys yn yr enghraifft

## Ymgynghoriad Addysg Gatholig

Mae Esgobaeth Gatholig Wrecsam a Chyngor Sir y Fflint yn gofyn am eich barn ar gynnig i ad-drefnu'r ddarpariaeth addysg Gatholig yn Sir y Fflint. Cynigir:

- Cau Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Anthony yn Saltney, a fydd yn gorffen gweithredu erbyn 31 Awst 2026
- Cyfuno Ysgol Gynradd Gatholig Dewi Sant yn yr Wyddgrug, Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair yn y Fflint ac Ysgol Uwchradd Gatholig St Richard Gwyn yn y Fflint
- Byddai 1 ysgol unigol yn cau trwy uno 2 Awst a 2 yn uno 2 ysgol unigol. Ysgol Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir cyfrwng Saesneg 3-18, gydag enw a rhif ysgol newydd, wedi'i hagor ym mis Medi 2026, yn gweithredu dros y tri safle presennol
- Symud yr ysgol newydd i'r adeiladau newydd o 01 Medi 2029.

Dywedwch wrthym beth yw eich barn am y cynnig drwy lenwi'r holiadur.

**Mae eich barn yn bwysig**.

Sylwch na fydd ymatebion negyddol i'r ymgynghoriad hwn yn cael eu cyfrif fel gwrthwynebiadau i'r cynnig, byddant yn cael eu cofnodi fel sylwadau anffafriol. Dim ond ar ôl cyhoeddi hysbysiad statudol y gellir cofrestru gwrthwynebiadau.

Os hoffech gael gwybod am gyhoeddiad yr adroddiad ymgynghori, byddwch yn gallu gadael eich manylion cyswllt ar ddiwedd y ffurflen arolwg.

### 1. Nodwch a ydych yn cytuno neu'n anghytuno â phob agwedd ar y cynnig:

| | **Ydw** | **Nac ydw** |
|---|---|---|
| Cau Ysgol Gynradd Gatholig St Anthony's yn Saltney erbyn 31 Awst 2026. | ☐ | ☐ |
| Uno Ysgol Gynradd Gatholig Dewi Sant yn yr Wyddgrug, Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair yn y Fflint, ac Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn erbyn 31 Awst 2026 gan weithredu ar y tri safle presennol. Bydd yr ysgol unedig cyfrwng Saesneg 3-18 a Gynorthwyir yn Wirfoddol yn agor gydag enw a rhif ysgol newydd, gan agor ym mis Medi 2026. | ☐ | ☐ |
| Symud yr ysgol newydd i adeiladau newydd o 01 Medi 2029. | ☐ | ☐ |

**2. Defnyddiwch y blwch isod i roi sylwadau neu i egluro pa elfen o'r cynnig yr ydych yn ei gefnogi neu ddim yn ei gefnogi ac unrhyw ddewisiadau amgen i'r cynnig hwn.**

**3. Gyda pha ysgol(ion) ydych chi'n gysylltiedig?**

- ☐ Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn
- ☐ Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair
- ☐ Ysgol Gynradd Gatholig Dewi Sant
- ☐ Ysgol Gynradd Gatholig St Anthony's
- ☐ Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol yr Hybarch Edward Morgan
- ☐ Ysgol Gynradd Gatholig Santes Gwenffrewi
- ☐ Arall (nodwch):

**4. Beth yw eich cysylltiad/perthynas â'r ysgol rydych wedi nodi cysylltiad â hi?**

- ☐ Rwy'n rhiant/gofalwr i ddisgybl yn yr ysgol
- ☐ Rwy'n ddisgybl yn yr ysgol
- ☐ Rwy'n ddarpar riant/gofalwr i ddisgybl yn yr ysgol
- ☐ Rwy'n athro/athrawes/aelod arall o staff yn yr ysgol
- ☐ Rwy'n llywodraethwr yn yr ysgol
- ☐ Rwy'n aelod o'r gymuned
- ☐ Arall (nodwch):

## 2. Safonau'r Gymraeg

Mae'r Cyngor yn gweithio o hyd i fynd i'r afael ag amcanion ei Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ac mae'n eu hystyried wrth ddatblygu cynigion yn ein hysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg. Mae hyn er mwyn lliniaru unrhyw gamau gweithredu a allai effeithio'n negyddol ar yr iaith Gymraeg a pharhau i hyrwyddo a chodi proffil addysg cyfrwng Cymraeg i'n holl ddysgwyr.

Gan fod y cynnig hwn yn ymwneud ag ad-drefnu addysg sy'n seiliedig ar ffydd yn y sir, rydym yn cydnabod y bydd cyfraniadau llai ar gyfer targedau'r Cyngor. Fodd bynnag, gydag unrhyw ysgol newydd daw cyfle i feithrin sgiliau Cymraeg yn yr amgylchedd dysgu a'r gymuned ehangach.

Mae rhagor o wybodaeth am yr effaith ar y Gymraeg i'w gweld yn ein Hasesiad o Effaith ar y Gymraeg ar y dudalen ymgynghori.
Hoffem gael eich barn ar yr effaith y bydd y cynnig hwn yn ei gael ar y Gymraeg, yn arbennig o ran:

- cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg; ac
- osgoi trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

Beth fyddai'r effaith yn eich barn chi…?

### 5. Cynyddu nifer y bobl sy'n siarad neu'n dysgu Cymraeg

- ☐ Cadarnhaol
- ☐ Negyddol
- ☐ Niwtral
- ☐ Ddim yn gwybod

### 6. Defnyddio gwasanaethau Cymraeg

- ☐ Cadarnhaol
- ☐ Negyddol
- ☐ Niwtral
- ☐ Ddim yn gwybod

### 7. Cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol

- ☐ Cadarnhaol
- ☐ Negyddol
- ☐ Niwtral
- ☐ Ddim yn gwybod

### 8. Cymunedau Cymraeg eu hiaith

- ☐ Cadarnhaol
- ☐ Negyddol
- ☐ Niwtral
- ☐ Ddim yn gwybod

### 9. Trin y Gymraeg yn gyfartal â'r Saesneg

- ☐ Cadarnhaol
- ☐ Negyddol
- ☐ Niwtral
- ☐ Ddim yn gwybod

### 10. Sut allwn ni gynyddu'r effeithiau cadarnhaol neu leihau'r effeithiau negyddol?

**Atodiad C. Ymateb Estyn**

Estyn

**Ymateb Estyn i'r cynnig i ad-drefnu'r Ddarpariaeth Addysg Gatholig yn Sir y Fflint o 31 Awst 2026.**

**Cyflwyniad**

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Arolygwyr Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i Chod cysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori i Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae'n ofynnol iddo weithredu yn unol â'r Cod ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn o ran materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn rhoi eu barn ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion yn unig.

Mae Estyn wedi ystyried yr agweddau addysgol ar y cynnig ac mae wedi llunio'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigiwr.

**Crynodeb / Casgliad**

Mae Cyngor Sir y Fflint yn ymgynghori ar ei gynnig i ad-drefnu ei ddarpariaeth addysg Gatholig o 31 Awst 2026 ymlaen.

Byddai hyn yn arwain at y camau canlynol:

- Cau Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Anthony yn Saltney.
- Uno Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Dewi Sant yn yr Wyddgrug, Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir y Santes Fair yn y Fflint ac Ysgol Uwchradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Richard Gwyn yn y Fflint i greu ysgol Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir unedig newydd 3-18 oed ag enw a rhif ysgol newydd.
- Bydd disgyblion o Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Anthony yn mynychu'r ysgol unedig newydd.

Mae Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir y Santes Fair wedi'i lleoli'n gyfagos at Ysgol Uwchradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Richard Gwyn. Dan y trefniadau arfaethedig, byddai adeilad ysgol newydd yn cael ei hadeiladu ar draws y ddau safle erbyn mis Medi 2029. Cynigir y bydd pob disgybl yn yr ysgol unedig newydd yn symud i'r adeilad newydd bryd hynny.

Nid yw Estyn yn glir ynghylch beth fydd effaith debygol y cynnig hwn ar safon y ddarpariaeth addysg yn yr ardal, yn enwedig gan fod angen gwelliant sylweddol ar un o'r ysgolion sy'n rhan o'r ymgynghoriad.

**Disgrifiad a manteision**

Ymddengys bod yr awdurdod lleol wedi cyflwyno sail resymegol glir yn amlinellu'r rhesymau dros y cynnig. Mae'r rhain yn cynnwys niferoedd disgyblion sy'n gostwng ar draws y pedair ysgol, ynghyd ag ansawdd dirywiol yr adeiladau a'r cyfleusterau ar bob safle. Mae'r trefniadau presennol yn lleihau gallu pob ysgol i gyfeirio cyllid ar gyfer addysg yn y ffordd fwyaf effeithlon. Er mwyn ymateb i hyn, mae'r awdurdod lleol wedi cynnal ymarfer gwerthuso opsiynau, sy'n dod i'r casgliad mai ad-drefnu'r ddarpariaeth Gatholig yn yr ardal sy'n ffafriol.

Mae'r awdurdod lleol wedi darparu disgrifiad addas o fanwl o'r cynnig, ynghyd ag amserlen amcangyfrifedig ar gyfer gweithdrefnau statudol. Dywed yr awdurdod lleol, gan fod digon o leoedd gwag mewn ysgolion lleol eraill, ynghyd â lleoedd gwag ar y safle cyfunol arfaethedig, na fyddai angen unrhyw drefniadau dros dro i ddarparu lleoedd ar gyfer disgyblion o'r safleoedd sy'n cau. Mae hyn yn ymddangos yn rhesymol.

Yn ogystal â'r brif ddogfen ymgynghori, mae'r awdurdod lleol wedi cynnwys fersiwn gryno a fersiwn sy'n addas i blant ar wefan yr ymgynghoriad. Mae'r ddogfen ymgynghori sy'n addas i blant yn cynnwys fframwaith ar gyfer ymatebion plant. Ymddengys bod y ddwy ddogfen yn glir ac yn ddefnyddiol.

Mae'r ddogfen ymgynghori'n cymharu'r cynnig â'r trefniadau presennol yn fanwl. Mae'r cyngor yn amlinellu sawl mantais ar gyfer disgyblion. Mae'r rhain yn cynnwys pontio rhwyddach mewn lleoliad 'ysgol pob oed', y gallu i fanteisio ar gyfleoedd ehangach mewn darpariaeth fwy, a mwy o gyfleoedd i ddatblygu iechyd a lles trwy gyfleusterau awyr agored gwell. Yn ogystal, mae'r ymgynghoriad yn amlinellu sut mae'r cynnig yn cyd-fynd â strategaethau cenedlaethol a lleol ar gyfer trawsnewid addysg.

Mae'r awdurdod lleol wedi nodi ychydig o risgiau i ansawdd safonau addysg oherwydd cyfnod tybiedig o ansicrwydd ar gyfer disgyblion a staff. Mae'r risgiau'n cynnwys y posibilrwydd o golli disgyblion i ddarpariaeth nad yw'n ddarpariaeth Gatholig. Mae'r ddogfen ymgynghori'n cyflwyno mesurau lliniaru rhag y risgiau hyn sy'n ymddangos yn addas.

Mae'r awdurdod lleol wedi ystyried ystod o opsiynau amgen yn fanwl. Mae'r rhain yn cynnwys y posibilrwydd o gynnal y darpariaethau cynradd Catholig yn Saltney a'r Wyddgrug ac uno Ysgol Gynradd Gatholig a Gynorthwyir yn Wirfoddol y Santes Fair ac Ysgol Uwchradd Gatholig a Gynorthwyir yn Wirfoddol Sant Richard Gwyn, sydd wedi'u lleoli ar safleoedd cyfagos. Ymddengys bod yr awdurdod lleol wedi cynnal dadansoddiad trylwyr o bob opsiwn ac wedi darparu cyfiawnhad sy'n ymddangos yn rhesymol dros ymgynghori ar y cynnig.

Mae'r cynnig wedi nodi y bydd pellteroedd cerdded ac amseroedd teithio yn cynyddu'n sylweddol i rai disgyblion ac y bydd gofyniad am gludiant ychwanegol pe

byddai'r ysgolion yn cael eu cau. Mae'r awdurdod lleol wedi cynnwys Asesiad o'r Effaith ar Gludiant yn y cynnig. Ymddengys bod yr asesiad yn cynnwys manylion addas sy'n cynnig cyfrifiadau defnyddiol yn amlinellu'r gwahaniaeth yn y pellter teithio cyfartalog ar gyfer yr holl ddisgyblion dan sylw. Dywed y cynnig y bydd cludiant am ddim rhwng yr ysgol a'r cartref ar gael, yn unol â pholisi cludiant rhwng y cartref a'r ysgol yr awdurdod lleol ac mae'n darparu amcangyfrif o'r gost.

Mae’r cynnig yn amlinellu effaith negyddol cau Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Anthony ac Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Dewi Sant ar y ffordd y mae grwpiau ffrindiau presennol yn rhyngweithio â’i gilydd. Nid yw’r ymgynghoriad yn awgrymu sut bydd yr awdurdod lleol yn ceisio mynd i’r afael â’r mater hwn.

Ymddengys bod y cyngor wedi dangos effaith y cynnig ar leoedd gwag yn effeithiol. Mae rhagolygon yn rhagweld y bydd y lleoedd gwag hyn yn cynyddu i 298 ar draws yr ysgolion cynradd a 258 yn yr ysgol uwchradd erbyn mis Medi 2029. Mae’r cyngor yn dangos lle nad yw disgyblion cynradd yn dymuno mynychu’r ysgol gyfunol arfaethedig, bod digon o le iddynt fynychu ysgolion lleol eraill neu’r ysgol gynradd Gatholig agosaf. Fodd bynnag, nid yw’r ymgynghoriad yn glir ynghylch p’un a fyddai’r awdurdod lleol yn darparu cludiant i ddisgyblion pe na fyddant yn dymuno mynychu’r ysgol newydd. Pe byddai’r cynnig yn mynd rhagddo, mae’n rhesymol i’r awdurdod lleol awgrymu y byddai nifer y lleoedd gwag yn gostwng.

Mae’r awdurdod lleol wedi ystyried effaith y cynnig ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr awdurdod lleol. Daw’r cynnig i’r casgliad syml, gan fod pob un o’r ysgolion yn ddarpariaethau cyfrwng Saesneg, na fyddai eu cau yn cynyddu nac yn lleihau argaeledd darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr ardal. Ymddengys bod hyn yn rhesymol.

Mae’r awdurdod lleol wedi ystyried costau ariannol y cynnig yn briodol. Bydd cyllid yn mynnu benthyca cyfalaf. Mae’r ddogfen ymgynghori’n cymharu cost bresennol y pedair ysgol â chostau amcangyfrifedig yr ysgol gyfunol. Nid yw’r cynnig yn datgan yn benodol y caiff arbedion eu defnyddio i ad-dalu’r swm sy’n cael ei fenthyg. Mae’r Asesiad o’r Effaith ar Gludiant yn darparu amcangyfrif defnyddiol o’r gost ar gyfer unrhyw gludiant ychwanegol fydd ei angen.

Mae’r awdurdod lleol wedi darparu Asesiad o’r Effaith ar y Gymraeg yn rhan o’r cynnig hwn.

Mae’r awdurdod lleol wedi darparu Asesiad o’r Effaith ar y Gymuned yn rhan o’r cynnig hwn.

**Agweddau addysgol ar y cynnig**

Mae’r awdurdod lleol yn cyfeirio at safonau disgyblion yn y ddogfen ymgynghori a dywed y bydd y cyfleusterau newydd yn gwella darpariaeth a chyfleoedd dysgu. Nid

yw’r ddogfen ymgynghori’n gwerthuso’n ddigon da effaith y newidiadau arfaethedig ar safonau disgyblion.

Ymddengys bod y cynnig yn rhoi ystyriaeth ddigonol i’r effaith ar les disgyblion. Mae’r brif ddogfen yn amlinellu’r effaith ddisgwyliedig ar les ac agweddau at ddysgu oherwydd adnoddau ac amwynderau gwell. Mae’r Asesiad o’r Effaith Integredig yn cydbwyso goblygiadau byrdymor newid ysgol yn erbyn manteision tymor hwy, fel ystod ehangach o gyfleoedd i ddatblygu iechyd a lles trwy ddatblygu caeau chwarae gwell ac ardaloedd natur. Mae’r ddogfen hefyd yn amlinellu darpariaeth ar gyfer cymorth bugeiliol trwy’r cyfnod pontio, yn ôl y gofyn.

Mae’r ymgynghoriad yn ystyried yn fras effaith y cynnig ar ansawdd yr addysgu. Mae’r awdurdod lleol o’r farn y bydd yn gwella trwy’r gallu i fanteisio ar adnoddau a chyfleusterau gwell. Bydd yr ysgol newydd hefyd yn darparu cyfleoedd ychwanegol ar gyfer datblygiad proffesiynol staff ac ystod ehangach o weithgareddau cwricwlaidd.

Dywed y cynnig y bydd y trefniadau presennol ar gyfer sicrhau lefelau priodol o anogaeth a chymorth i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ym mhob ysgol unigol yn trosglwyddo'n awtomatig i'r ysgol pob oed. Mae hyn yn cynnwys staff addysgu priodol. Fodd bynnag, dywed yr Asesiad o'r Effaith Integredig y bydd tynnu dwy ysgol o'r rhwydwaith yn lleihau cyfleoedd cyflogaeth. Nid yw'n glir a fydd yr holl staff sy'n gweithio â disgyblion ag ADY yn parhau yn eu rolau presennol ai peidio.

Mae'r cynnig o'r farn y caiff arweinyddiaeth a rheolaeth eu cryfhau trwy gyfnewid arfer effeithiol rhwng arweinwyr yr ysgolion presennol a'r profiad y maent wedi'i gronni. Fodd bynnag, nid yw'r cynnig yn ystyried y wybodaeth o'r adroddiadau Estyn diweddaraf yn ddigon dda. Yn benodol, nid yw'r ymgynghoriad yn nodi bod angen 'gwelliant sylweddol' ar Ysgol Uwchradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Richard Gwyn yn y Fflint. Felly, mae'n afresymol awgrymu ar hyn o bryd y caiff yr ysgol ei gwella trwy ei huno yn unig.

Mae sawl agwedd ar y cynnig yn awgrymu y bydd cyfleusterau gwell yn cryfhau darpariaeth y cwricwlwm a chyfleoedd dysgu yn yr ysgol. Dywed y ddogfen y caiff ymarferwyr eu cynnwys mewn dylunio'r adeilad ysgol newydd. Fodd bynnag, mae manylion pellach yn gyfyngedig, yn enwedig ynghylch cynlluniau ar gyfer sicrhau dilyniant effeithiol ar draws pob cyfnod addysg.

## Atodiad D. Ymgynghoriadau Plant a Phobl Ifanc

### Atodiad D.1 Sant Anthony

**1A. Beth ydych chi'n ei hoffi am eich ysgol?**

| Ymatebion | Nifer yr Ymatebwyr |
|---|---|
| Maint:<br>Mae'n hwyl ac nid yw mor fawr â hynny.<br>Dydych chi ddim yn mynd ar goll yn hawdd.<br>Rydym yn hoffi ei fod yn fach.<br>Dydi o ddim yn fawr ond mae'n lleol ac yn dda!!<br>Dwi'n hoffi ei fod yn lleol a ddim mor fawr â hynny. | **6** |
| Perthnasoedd:<br>Rydym yn hoffi ein ffrindiau a'r ystafell ddosbarth.<br>Mae'r athrawon yn neis.<br>Rydym ni'n adnabod pawb yn yr ysgol yma! | **3** |
| Cymuned:<br>Rydym ni'n gwybod bod popeth yn gweithio a sut mae'n datblygu gyda chymunedau. | **1** |
| Bywyd yr Ysgol:<br>Dwi'n hoffi celf, dwi'n hoffi'r wisg. | **1** |

**1B. Beth hoffech chi ei newid am eich ysgol?**

| Ymatebion | Nifer yr Ymatebwyr |
|---|---|
| Dim. | **2** |
| Bwyd:<br>Ychwanegu mwy o fwyd i'r fwydlen.<br>Pwdinau heb gnau. | **3** |
| Strwythurau Dosbarthiadau:<br>Ychwanegu pob grŵp blwyddyn at ei gilydd.<br>Cymysgu grwpiau mewn blynyddoedd ar gyfer gweithgareddau. | **2** |
| Cyfleusterau:<br>Ychwanegu pethau i'r maes chwarae. | **1** |

**2. Sut fyddech chi'n teimlo pe byddai eich ysgol i gau?**

| Ymatebion | Nifer yr Ymatebwyr |
|---|---|
| Emosiynau:<br>Trist, dan straen, blin, dig.<br>Yn ofidus gan ei bod hi'n ysgol dda iawn.<br>Fyddem ni ddim yn hapus.<br>Yn teimlo'n isel am y cau.<br>Yn ofidus iawn hefyd!<br>Trist, dig, blin, crio, casineb.<br>Blin, trist, pwdlyd, ofnus, diamynedd. | **7** |

**3A. Beth ydych chi'n credu fyddai'r elfennau da am gael ysgol newydd sbon?**

| Ymatebion | Nifer yr Ymatebwyr |
|---|---|
| Cyfleoedd i gael ffrindiau newydd:<br>Byddwch yn dod o hyd i ffrindiau newydd.<br>Rhyngweithio gyda phobl eraill a gwneud ffrindiau newydd, dysgu pethau newydd.<br>Mwy o ffrindiau. | **4** |
| Bwyd:<br>Pwdinau newydd. | **1** |
| Adeilad:<br>Mwy modern.<br>Mwy o le. | **2** |
| Dim:<br>Mae'n anodd gwneud ffrindiau newydd, efallai y cewch eich bwlio, efallai bod gennych frodyr a chwiorydd sydd eisiau dod o Sant David, mae'r eglwys yn bell iawn i ffwrdd. | **2** |

**3B. Beth am y pethau drwg?**

| Ymatebion | Nifer yr Ymatebwyr |
|---|---|
| Ymlyniad emosiynol:<br>Efallai y byddwch chi'n methu eich ffrindiau ac athrawon.<br>Efallai y byddwch chi'n methu'r ysgol gyfan. | **2** |
| Lleoliad/Teithio: | **3** |

| | |
|---|---|
| Efallai na fydd yr athrawon yn gallu gyrru mor bell â hynny. Ac fe fydd yn rhaid i chi ddal y bws bob dydd hefyd.<br>Teimlo straen gorfod teithio ar gludiant.<br>Ddim yn lleol | |
| Bwlio | **1** |
| Maint:<br>Rhy fawr, gormod o bobl. Ddim yn lleol.<br>Arbedwch ein hysgol rŵan!!!!! Cadwch bopeth fel y mae!!!!!!<br>Mwy o ddosbarthiadau, mwy o straen.<br>Llawer o bobl. | **3** |
| Dim opsiynau ar gyfer ysgol uwchradd | **1** |

**4. Oes yna unrhyw beth y byddech chi'n hoffi ei weld yn digwydd yn lle hyn?**

| Ymatebion | Nifer yr Ymatebwyr |
|---|---|
| Cadw pethau fel y maent:<br>Fe hoffwn i i'n hysgol aros.<br>Mae'n rhaid i bob ysgol sy'n cael ei effeithio gan y cynnig aros ar agor.<br>Cadw'r ysgol ar agor fel amgueddfa.<br>Cadwch ein hysgol, peidiwch â'i gnocio i lawr. | **5** |
| Adeilad:<br>Ymestyn yr ysgol.<br>Fe allem drio ei wneud ychydig bach yn fwy. | **2** |

**Atodiad D.2 Sant David**

**1A. Beth ydych chi'n ei hoffi am eich ysgol?**

| Ymatebion | Nifer y disgyblion |
|---|---|
| Mae'n lle neis gydag athrawon neis, anifeiliaid da ac ardal ysgol goedwig wych. | **1** |
| Mae ganddynt blant neis ac iard fawr. | **1** |
| Mae yna bobl dda, bwyd da, cae pêl-droed, amgylchedd gweithio da. | **1** |
| Y pethau yr ydym yn ei hoffi fwyaf am yr ysgol ydi ei fod yn agos at ein hysgol, mae yna athrawon neis iawn yno. | **1** |
| Ysgol Goedwig | **1** |
| Rydym yn gweld ein holl ffrindiau. | **1** |
| Gwersi hwyliog. | **1** |
| Plant neis. | **1** |
| Ysgol Goedwig. | **1** |
| Mae'n agos at ein cartrefi. | **1** |
| Pynciau da | **1** |
| Athrawon da. | **1** |
| Pawb yn hapus. | **1** |
| Pa mor agos ydi o at fy nghartref, y cinio, gwaith da, digon o le | **1** |
| Dwi'n hoffi'r holl gefnogaeth dwi'n ei gael ac mae hi'n ysgol dda yn gyffredinol a dwi'n caru'r ysgol goedwig. | **1** |

**1B. Beth hoffech chi ei newid am eich ysgol?**

| Ymatebion | Nifer y disgyblion |
|---|---|
| Bwyd yr ysgol i gael ei goginio ar dir ein hysgol yn lle gael ei archebu gan gwmni. | **1** |
| Mwy o egwyl, mwy o gelf ac amser aur. | **1** |
| Rhai cyfrifiaduron newydd y tu allan i'n dosbarth. | **1** |
| Llawer mwy | **1** |
| Mwy o le ar y cae chwarae ac ardal wingo. | **1** |
| Dim Newid. | **1** |
| Mwy o ysgol goedwig a chwaraeon, a mwy o stwff ar y cae chwarae. | **1** |

**2 Sut fyddech chi'n teimlo pe byddai eich ysgol i gau?**

| Ymatebion | Nifer y disgyblion |
|---|---|
| Mi fyddwn i'n torri fy nghalon, yn drist ac yn flin ac mi fyddwn i'n teimlo'n wael dros y rhai iau. | **1** |
| Yn drist ac yn isel oherwydd ni fydd mwyafrif y plant yn cael addysg. | **1** |
| Sad<br>Yn ddig<br>Cynddeiriog<br>Blin<br>Lloerig<br>Ddim yn deg<br>Torri fy ngalon<br>Andros o ddig<br>Blin iawn<br>Balistig | **1** |
| Blin iawn, isel, annheg, anhapus, bwyta oherwydd straen, dewiswch addysg dros arian os gwelwch yn dda! | **1** |
| Yn isel, blin a thrist. | **1** |
| Yn drist achos mae'r holl blant yn hoffi'r ysgol yma yn gorfod gadael a mynd i ysgol wahanol. | **1** |

**3A. Beth ydych chi'n credu fyddai'r elfennau da am gael ysgol newydd sbon?**

| Ymatebion | Nifer y disgyblion |
|---|---|
| Does dim rhaid i chi chwilio am ysgol uwchradd os ydych chi'n mynd yno. | **1** |
| Cyfarfod ffrindiau/pobl newydd, ddim yn gorfod symud i ysgol uwchradd arall. | **1** |
| Mwy o blant yn cael mwy o addysg, does dim rhaid i chi symud ysgol. | **1** |
| Mwy o ffrindiau. | **1** |
| Mwy o ffrindiau a does dim rhaid i chi deithio mor bell ar ôl i chi orffen ysgol gynradd fe allech chi dal aros yn yr ysgol, ond yn rhan yr ysgol uwchradd. | **1** |

**3B. Beth am y pethau drwg?**

| Ymatebion | Nifer y disgyblion |
|---|---|

| | |
|---|---|
| PEIDIWCH Â CHAU, dydi plant bach gyda phlant mwy ddim yn syniad da os ydi’r plant mawr yn bwlio’r rhai bach. | **1** |
| Ni fydd rhai pobl yn gallu teithio yno bob dydd, ac fe fydd yn wael i’r amgylchedd drwy ddefnyddio mwy o geir, dydi plant ddim eisiau mynd i’r ysgol yn bell i ffwrdd o adref. | **1** |
| Mae’n rhaid i chi yrru’n bellach, roeddwn i’n mynd i anfon fy mhlant yno. | **1** |
| Gorfod dod i arfer efo popeth. | **1** |
| Rhy bell i ffwrdd. | **1** |
| Beth os nad ydym ni’n hoffi’r bobl. | **1** |
| Gormod o bobl yno. | **1** |
| Dosbarth Meithrin a Blwyddyn 11 yn yr un adeilad. | **1** |
| Dryslyd iawn. | **1** |
| Fe fyddwch chi’n mynd ar goll yn y coridorau. | **1** |
| Yn gorfod codi’n gynt. | **1** |
| Fe fydd yn bell iawn i ffwrdd. | **1** |
| Ffioedd cludiant. | **1** |
| Gorlawn. | **1** |
| Rhy fawr. | **1** |
| Fe fyddai’n rhaid i chi symud cartref. | **1** |
| Mae mwy o adeiladu yn ddrwg i’r amgylchedd, llai o ddewis ar gyfer ysgolion, ffioedd tacsi, mae pobl yn drist am y nifer o bobl sydd methu cerdded i’r ysgol. | **1** |
| Bydd yr ysgolion yn cau er mwyn iddynt gael tir i adeiladu arno, ac fe allai fod yn bell i ffwrdd. | **1** |

**4. Oes yna unrhyw beth y byddet ti’n hoffi ei weld yn digwydd yn lle hyn?**

| Ymatebion | Nifer y disgyblion |
|---|---|
| Dwi’n meddwl y gallent adeiladu mwy o ysgolion. | **1** |
| Adeiladwch ysgol arferol i bobl sy’n agos at fanno. | **1** |
| Gadewch yr ysgolion ar wahân. | **1** |
| Pam eu bod hyn gwneud yn mor sydyn. | **1** |

| | |
|---|---|
| Defnyddiwch yr arian i wella'r ysgolion yma. | **1** |
| Os ydi hi'n cau, peidiwch â'i chau, byddwn yn amddiffyn ein hysgol. Byddai'n well petai yna fws yn pasio yna gallwch fynd i'r ysgol. Peidiwch â'i chau. | **1** |
| Cadwch hi, popeth yr un fath. | **1** |
| Cadwch gymaint o ysgolion ar agor â phosib, cadwch bobl rhag gorfod teithio'n bell, fe allent wneud gwersi ar-lein neu roi cynnig ar yr ysgol newydd. | **1** |

**Atodiad D.3 Y Santes Fair**

**1A. Beth ydych chi'n ei hoffi am eich ysgol?**

| Ymatebion | Nifer y Sylwadau |
|---|---|
| Y coed | 1 |
| Y llwybr ‘trim’ | 1 |
| Y ddraig | 1 |
| Pêl-droed | 3 |
| Yr athrawon | 2 |
| Y digwyddiadau | 2 |
| Amser byrbryd | 1 |

**1B. Beth hoffech chi ei newid am eich ysgol?**

| Ymatebion | Nifer y Sylwadau |
|---|---|
| Cael cae pêl-droed i bob dosbarth. | 2 |
| Bariau Mwnci. | 1 |
| Gosod pwll nofio gyda llithren ddŵr. | 1 |
| Gosod fferm ffrwythau. | 1 |
| Cynnal mwy o glybiau amser chwarae. | 1 |
| Gwyddoniaeth/Cemeg go iawn. | 1 |

**2. Sut fyddech chi’n teimlo pe byddai eich ysgol i gau?**

| Ymatebion | Nifer y Sylwadau |
|---|---|
| Trist | 4 |
| Nerfus | 1 |
| Siomedig | 1 |
| Ofnus | 1 |
| Chwilfrydig | 2 |
| Dryslyd | 3 |
| Hapus | 1 |

**3A. Beth ydych chi’n credu fyddai’r elfennau da am gael ysgol newydd sbon?**

| Ymatebion | Nifer y Sylwadau |
|---|---|
| Gwneud ffrindiau newydd. | 4 |
| Dal i fod gyda’n ffrindiau iau. | 1 |
| Cyfleusterau gwell. | 2 |
| Mwy o le. | 1 |

**3B. Beth am y pethau drwg?**

| Ymatebion | Nifer y disgyblion |
|---|---|
| Gormod o bobl. | 1 |
| Llethol | 1 |

| | |
|---|---|
| Mae'n bosibl y byddem yn colli ein Pennaeth. | **1** |
| Fe fydd yn rhy brysur ac yn rhy swnllyd. | **1** |
| Mae'n bosibl y byddwn yn mynd ar goll mewn ysgol enfawr. | **1** |
| Bydd pethau'n torri. | **1** |
| Pobl yn dod ag arfau i'r ysgol. | **1** |
| Pobl yn ysmygu/fêpio. | **2** |
| Colli hen ffrindiau. | **1** |
| Methu mynd â chŵn allan | **1** |

**4. Oes yna unrhyw beth y byddech chi'n hoffi ei weld yn digwydd yn lle hyn?**

| Ymatebion | Nifer y Sylwadau |
|---|---|
| Ei gadw yr un fath. | **4** |
| Rhoi'r holl ysgolion cynradd gyda'i gilydd. | **1** |
| Dod â stwff newydd. | **1** |
| Adeiladu ysbyty. | **1** |
| Mwy o swyddogion cymorth cyntaf. | **1** |
| Atgyweirio'r adeilad presennol. | **1** |
| Ei adeiladu yn rhywle arall | **1** |

## Atodiad D.4 Sant Richard Gwyn

### 1A. Beth ydych chi'n ei hoffi am eich ysgol?

| Ymatebion | Nifer yr Ymatebwyr |
|---|---|
| Cyfleusterau:<br>Y lle bwyd tu allan newydd<br>Bwyd<br>Ffreutur<br>Neuadd Chwaraeon<br>Buarth top/lle<br>Wedi ailwampio ystafelloedd dosbarth a thoiledau (neis iawn)<br>Cae neis i wneud chwaraeon<br>Offer wedi'u hailwampio | **10** |
| Staff:<br>Athrawon<br>Cymryd gofal o bethau o fewn wythnos neu 2 (problemau)<br>Athrawon a Yazoo yn reit neis | **4** |
| Llai o oriau nag ysgolion eraill | **1** |
| Maint<br>Ysgol uwchradd leiaf yn Sir y Fflint felly dydi hi ddim yn rhy brysur na mawr. | **1** |
| Lleoliad:<br>Ardal dawel (dim safleoedd adeiladu). | **1** |

### 1B. Beth hoffech chi ei newid am eich ysgol?

| Ymatebion | Nifer yr Ymatebwyr |
|---|---|
| Cyfleusterau:<br>Llawr y neuadd chwaraeon<br>Mwy o doiledau<br>Ystafelloedd newid chwaraeon<br>ADY<br>Aerdymheru wedi'i ychwanegu i bob ystafell<br>Ailwampio mwy o ystafelloedd<br>Peidio â rhoi'r gwres ymlaen yn yr haf a rhoi'r gwres ymlaen yn y gaeaf<br>Ffreutur mwy (rhywfaint o le tu allan yn yr haf hefyd) | **10** |
| Staff/Addysgu:<br>Cwricwlwm iaith gwell | **1** |

| | |
|---|---|
| | |
| | |

**2. Sut fyddech chi'n teimlo pe byddai eich ysgol i gau?**

| Ymatebion | Nifer yr Ymatebwyr |
|---|---|
| Emosiynol:<br>Yn drist am newid gwisg<br>Atgofion da<br>Hanes Sant Richard Gwyn wedi mynd.<br>Yn flin gan fod gan yr ysgol yma 75 mlynedd o hanes ac mae nifer o bobl wedi dod i'r ysgol yma gan nad yw'n rhy fawr. | **3** |
| Cyfleusterau/Adeilad<br>Ychydig yn hapus - adnewyddiadau.<br>Teimlo'n brysur a llawn iawn.<br>Yn flin gan y bydd yr arian ar gyfer ailwampio'r ystafelloedd dosbarth a'r offer yn cael ei wastraffu. | **3** |
| Staff/Addysgu:<br>Byddech yn cael cyfarfod pobl/athrawon newydd. | **1** |
| ADY:<br>I bobl sydd ag ADY mae ysgol fawr yn well gan eich bod eisoes yn adnabod mwyafrif yr athrawon. | **2** |
| Pontio:<br>Bydd symud o ysgol gynradd i uwchradd yn haws. | **1** |
| Teithio/lleoliad:<br>Byddai'r ysgolion eraill yn teithio'n llawer hirach.<br>Pobl heb lawer o arian yn gorfod talu am betrol am y pellter yma. | **2** |
| Cyfleoedd:<br>Effeithio ar bobl sydd â chlybiau ar ôl ysgol/chwaraeon. | **1** |
| Ddim yn effeithio arnaf i. | **1** |
| Hapus | **1** |
| Gwisgoedd ysgol: | **2** |

| | |
|---|---|
| Yn flin gan y byddai'n rhaid i ni rannu gwisgoedd ysgol gydag ysgol arall.<br>Yn drist gan fod nifer o bobl yn hoffi'r wisg ysgol ac yn teimlo ymdeimlad o berthyn. | |

**3A. Beth ydych chi'n credu fyddai'r elfennau da am gael ysgol newydd sbon?**

| Ymatebion | Nifer yr Ymatebwyr |
|---|---|
| Cyfleusterau/darpariaeth:<br>Cael clwb brecwast a chlwb ar ôl ysgol. | **1** |
| Staff/Addysgu:<br>Staff/pynciau newydd.<br>Tîm Diogelu newydd.<br>Efallai cael mynediad at addysg well. | **3** |
| Cymdeithasol:<br>Cyfleoedd i wneud ffrindiau newydd.<br>Pawb yn gallu dod at ei gilydd. | **2** |
| | |

**3B. Beth am y pethau drwg?**

| Ymatebion | Nifer yr Ymatebwyr |
|---|---|
| Teithio/Lleoliad<br>Y bws ysgol gan na fyddai llawer o bobl eisiau i'w plant fynd ar fws yn ifanc.<br>Bydd cychwyn yn gynnar yn eu blino.<br>Efallai y bydd rhai yn byw yn bell i ffwrdd fel pobl yn Sant Anthony.<br>Mae'n bellter hir i bobl deithio.<br>Yn anodd ei gyrraedd i rai pobl.<br>Ni all rhai plant fynd ar fysiau ysgol gen eu bod yn rhy ifanc. | **8** |
| Traffig:<br>Traffig prysur iawn.<br>Mae yna lawer o draffig yn barod o gwmpas yr ysgol yma, a gydag ysgol fwy, fe fydd y traffig yn ofnadwy i'r ysgol a phreswylwyr. | **2** |
| ADY/Anableddau:<br>Newid newydd i bobl sydd yn sâl yn feddyliol. | **2** |

| | |
|---|---|
| Yn anoddach i bobl gydag anableddau, yn anoddach cael mynediad, dod i arfer ag o, ffitio i mewn. | |
| Adeilad:<br>Ddim yn gwybod y ffordd o gwmpas.<br>Mae llawer o arian eisoes wedi cael ei wario i ailwampio’r ysgol yma. | **2** |
| Staff:<br>Anoddach dod i arfer ag athrawon newydd. | **1** |
| Pontio:<br>Anodd dod i arfer ag o eto, yn enwedig i blant iau. | **1** |
| Gwisg:<br>Anodd cyfaddawdu dros wisg gydag ysgolion eraill. | **1** |
| Ffydd:<br>Nid oes llawer o bobl yn Gatholigion yn yr ysgol hon na’r ysgolion cynradd yn gyffredinol, felly byddwn yn hepgor yr ymdrech, a byddai’n well symud ysgol nad yw’n Gatholig neu ysgol arall sydd yn agosach neu’n llai. Efallai y bydd rhaid i rai athrawon adael. | **1** |
| Maint:<br>Bydd llawer o bobl sydd eisoes yn mynd i’r ysgol hon yn gadael er mwyn iddynt symud i ysgol arall lai, agosach neu fwy cyfarwydd.<br>Mor fawr, byddai gan gymaint o blant ifanc bryder. | **2** |
| Mae yna fwy o elfennau negyddol felly peidiwch â symud ymlaen â’r syniad! | 1 |

**4. Oes yna unrhyw beth y byddech chi’n hoffi ei weld yn digwydd yn lle hyn?**

| Ymatebion | Nifer yr Ymatebwyr |
|---|---|
| Egwyl hirach | **2** |
| Cyfleusterau:<br>Ystafell weddïo fwy ac ystafell offeren i’r ysgol gyfan.<br>1 ffreutur i’r ysgol gynradd ac 1 i’r ysgol uwchradd. | **2** |

| | |
|---|---|
| Ar y cyfan dwi'n cytuno â dod â'r ysgolion ynghyd. | **1** |
| Sant Anthony a Sant David yn uno yn rhywle rhwng yr Wyddgrug a Saltney. | **2** |
| Cadwch yr ysgolion ar wahân, peidiwch â chau yr un ysgol. | **1** |
| Ar y cyfan dylai fod yn benderfyniad i bobl yr ardal a rhieni'r plant. | **1** |
| Dwy ysgol gynradd fach yn rhai rhannau o'r ardal ydi'r broblem, felly peidiwch â dod ag ysgol uwchradd mewn i'r broblem i'w gwneud yn fwy. Peidiwch â'i wneud yn fwy cymhleth!!! | **1** |

**Atodiad D.5 Santes Gwenffrewi**

**1A. Beth ydych chi'n ei hoffi am eich ysgol?**

| Ymatebion | Nifer yr Ymatebwyr |
|---|---|
| Does yna ddim gormod o blant yn ein hysgol. | **1** |
| Clybiau ar ôl ysgol. | **1** |
| Mae gennym ni gae. | **1** |
| Mae rhan fwyaf y gwaith yn hwyl. | **1** |
| Cystadlaethau. | **1** |
| Drama’r Geni. | **1** |
| Teithiau. | **1** |
| Heriau. | **1** |
| Cyfnewid teganau. | **1** |
| Athrawon. | **1** |
| Gwobrau. | **1** |

**1B. Beth hoffech chi ei newid am eich ysgol?**

| Ymatebion | Nifer y disgyblion |
|---|---|
| Offer/Cyfleusterau:<br>Sied newydd<br>Pêl-rwydi/cylchau newydd<br>Traethau<br>Cae gwaelod | **5** |

**2. Sut fyddech chi’n teimlo pe byddai eich ysgol i gau?**

| Ymatebion | Nifer y disgyblion |
|---|---|
| | |

**3A. Beth ydych chi’n credu fyddai’r elfennau da am gael ysgol newydd sbon?**

| Ymatebion | Nifer y disgyblion |
|---|---|
| Adnoddau:<br>Gan y byddai yna fwy o blant fe fyddai yna fwy o arian i’r ysgol brynu pethau. | **1** |
| Cyfleoedd i gael ffrindiau/athrawon newydd:<br>Mwy o ffrindiau i bobl.<br>Ffrindiau newydd.<br>Athrawon newydd. | **3** |
| Addysgu:<br>Dysgu mwy.<br>Addysgu gwell na’r hen rai. | **2** |

| | |
|---|---|
| Yn ei fwynhau'n fwy yn yr hen ysgol. | **1** |

**3B. Beth am y pethau drwg?**

| Ymatebion | Nifer y disgyblion |
|---|---|
| Teithio/Lleoliad:<br>Os ydi rhieni plant Sant Anthony eisiau iddynt fynd i ysgol Gatholig bydd yn rhaid iddynt deithio yn bell ac os nad oes ganddynt gar ni fyddant yn mynd i un.<br>Amser teithio hirach.<br>Efallai y bydd rhaid symud tŷ.<br>Bws ysgol | **3** |
| Cael eu gwahanu oddi wrth eu ffrindiau. | **1** |
| Yn anodd dod o hyd i ysgol. | **1** |

**4. Oes yna unrhyw beth y byddech chi'n hoffi ei weld yn digwydd yn lle hyn?**

| Ymatebion | Nifer y disgyblion |
|---|---|
| Parhau i adeiladu ysgol ond ddim yn agos at Sant Anthony. | **1** |

**Atodiad D.6 Yr Hybarch Edward Morgan**

**1A. Beth ydych chi'n ei hoffi am eich ysgol?**

| Ymatebion | Nifer y disgyblion |
|---|---|
| Dwi'n hoffi bod yr athrawon yn eich helpu os ydych yn cael trafferth gyda'ch gwaith a'ch helpu i ddeall a dwi hefyd yn hoffi eu bod nhw'n rhoi cyfleoedd da. | **1** |
| Mwy o gyfleoedd cinio a mwy o egwyliau yn yr ysgol. | **1** |
| Teithiau ysgol, cinio, ffrindiau, athrawon yn neis, egwyl, sioeau ysgol, mwy o weithgareddau ar ôl ysgol. | **1** |
| Dwi'n hoffi bod yr holl athrawon yn wahanol mewn ffordd dda. Dwi'n hoffi tripiau ysgol. Y cyfleoedd yr ydym ni'n eu cael. Dwi'n hoffi'r ffrindiau a'r gymuned fawr. Y bwyd hefyd. | **1** |
| Mae'r athrawon yn garedig ac mae yna lwybr syml allan drwy'r ysgol. | **1** |

**1B. Beth hoffech chi ei newid am eich ysgol?**

| Ymatebion | Nifer y disgyblion |
|---|---|
| Mwy o offer i'w newid a dwi'n meddwl y dylai Blwyddyn 6 i gyd fod mewn un dosbarth. | **1** |
| Fe hoffwn i fwy o amser chwarae a mwy o bynciau, e.e. Daearyddiaeth. | **1** |
| | |
| | |

**2. Sut fyddech chi'n teimlo pe byddai eich ysgol i gau?**

| Ymatebion | Nifer y disgyblion |
|---|---|
| Fe fydda'n teimlo braidd yn od ond dwi'n meddwl ei fod yn drist achos efallai na fydd pobl yn gallu cyrraedd y lleoliad newydd ac fe allent fod yn methu eu hathrawon. | **1** |
| Efallai y byddan nhw'n methu eu hathrawon. | **1** |
| Dwi'n teimlo bod rhai plant yn byw yn ymyl ysgolion cynradd Catholig ond pan fyddant yn cau mae'n mynd i fod yn un | **1** |

| | |
|---|---|
| ysgol enfawr ac efallai na fydd pobl eraill sy'n mynd i ysgol yn Saltney yn gallu cyrraedd yno. | |
| Mae'n fy ngwneud yn ddryslyd a theimlo fel mai ni ydi'r unig ysgol yn Sir y Fflint gyda Santes Gwenffrewi fel ein hysgol ni. | **1** |

**3A. Beth ydych chi'n credu fyddai'r elfennau da am gael ysgol newydd sbon?**

| Ymatebion | Nifer y disgyblion |
|---|---|
| Dwi'n meddwl mai'r peth da ydi bod rhai pobl ofn symud, ond gan ei fod i gyd mewn un ysgol fe fyddwch chi'n gallu gwneud mwy o ffrindiau newydd. | **1** |
| Dwi'n meddwl y gallem ni wneud ffrindiau newydd a chyfarfod athrawon newydd. | **1** |
| Mwy o ffrindiau, athrawon gwahanol, mwy o addysg, mwy o amddiffyniad, mwy o gyfleusterau. | **1** |
| Fe allai disgyblion ysgol uwchradd fod yn ysbrydoliaeth i'r disgyblion iau. | **1** |

**3B. Beth am y pethau drwg?**

| Ymatebion | Nifer y disgyblion |
|---|---|
| Dwi'n meddwl mai'r pethau drwg ydi newid gwisg ysgol a bydd yr holl arian o'r ysgol arall yn gorfod mynd i'r ysgol newydd ac os bydd dŵr yn gollwng yna ni fydd yn cael ei drwsio gan na fydd gennym arian. | **1** |
| Mae'n andros o ddrud, mae'n rhaid i ni brynu mwy o wisg ysgol. Efallai na fydd rhai yn gallu cyrraedd, mae'n haws mynd ar goll. | **1** |
| Mae'r ysgol yn rhy fawr. | **1** |
| Dwi'n meddwl os bydd y plant hŷn yn ymladd ac yn dweud pethau cas, fe fydd pobl yn drist. Fe allai'r rhai hŷn ddefnyddio geiriau drwg ac fe allai'r plant iau glywed a dweud wrth eu rhieni | **1** |

| | |
|---|---|
| ac fe allai'r rhieni ddweud wrth y Pennaeth ac fe fyddant yn mynd i drwbl. | |

**4. Oes yna unrhyw beth y byddet ti'n hoffi ei weld yn digwydd yn lle hyn?**

| Ymatebion | Nifer y disgyblion |
|---|---|
| Yn lle cau'r ysgolion, ychwanegu mwy o ysgolion Catholig, gallwch wario arian ar offer ar gyfer beiros, pensiliau, prennau mesur, cyfrifiannellau, teledu a llyfrau celf yr ysgol. | **1** |
| Fe allem newid y wisg ond fe ddylai pobl sydd eisoes yn yr ysgol uwchradd gael y wisg ysgol am ddim, ac os oedd angen newid gwisg ysgol fe allai'r rhai sy'n mynd i Sant Richard Gwyn gadw'r wisg ond newid y lliw. | **1** |
| Gwario arian ar bob ysgol yn hytrach nag un ysgol, rhoi rhywfaint i elusen i bobl sydd methu eu fforddio a gwisg am ddim i bawb sydd yno eisoes. | **1** |
| Mwy o ysgolion Catholig yn Sir y Fflint a chadwch yr ysgolion fel ag y maent. | **1** |

## Atodiad D.7 Fforwm Sir y Fflint Ifanc – 23/06/25

Mae Fforwm Sir y Fflint Ifanc yn cynnwys cynrychiolwyr o holl Ysgolion Uwchradd Sir y Fflint. Rhoddwyd cyflwyniad ar gynnig ysgolion Ardal Saltney a'r Ysgol Gatholig a gofynnwyd i grwpiau drafod a nodi manteision ac anfanteision y cynigion, ac amlygu unrhyw beth yr hoffent ei weld yn digwydd yn hytrach na hynny. Gofynnwyd iddynt hefyd beth roeddent yn ei deimlo am eu hysgolion yn gyffredinol, a chaiff hynny ei gynnwys yn adran 2 y Grynodeb hon.

### Adran 1 – Manteision ac Anfanteision y cynigion i Foderneiddio Ysgolion

| Manteision | Nifer | Anfanteision | Nifer |
|---|---|---|---|
| Buddion ariannol:<br>• Costio llai<br>• Mwy effeithlon o ran arian<br>• Bod yn rhagweithiol<br>• Byddai uno ysgolion yn caniatáu gwell defnydd o adnoddau a byddai'n fwy effeithlon Os gall Bryn Coch ffynnu gydag 1 Pennaeth ac 800 o blant a oes angen 2 Bennaeth ar gyfer 200 o blant ar Saltney?<br>• Staffio<br>• Cyllid uwch o bosibl ar gyfer ysgol newydd | **6** | Ariannol:<br>• Cyllideb drom ar gyfer ysgolion newydd/cyllideb is ar gyfer ysgolion sy'n bodoli | **1** |
| Pontio:<br>• Yn ddefnyddiol i bontio (Ysgol Gampws). Yn lleihau pryder yn enwedig i blant niwroamrywiaeth<br>• Gwneud pontio i ysgol uwchradd yn haws | **3** | Pontio:<br>• Symud cychwynnol, pontio'n raddol, system wahanol<br>• Bywydau newydd | **2** |
| Adnoddau:<br>• Byddai uno ysgolion yn caniatáu gwell defnydd o adnoddau a byddai'n fwy effeithlon | **2** | Staffio:<br>• Athrawon yn colli eu swyddi<br>• Cymhareb y myfyrwyr i'r athrawon<br>• Gall ymddangos yn anodd i ddod o hyd i swydd newydd<br>• Colli swyddi<br>• Athrawon newydd nad ydynt yn eich adnabod<br>• Llawer o bwysau ar y Pennaeth | **6** |
| Cyfleusterau:<br>• Cyfleusterau glanach/newydd | **1** | ADY:<br>• Heb gyfleusterau | **1** |
| Cwricwlwm | **1** | Lles preswylwyr | **1** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Adeilad:<br>• Strwythur modern/Eco-gyfeillgar<br>• Adeiladau newydd (wedi eu moderneiddio) | **2** | Lles myfyrwyr<br>Gweld llai ar ffrindiau | **2** |
| Lles myfyrwyr:<br>• Mae'n bosibl eu bod yn dangos mwy o ddiddordeb â'r syniad o ysgol newydd<br>• Annog rhyngweithio/cymdeithasu<br>• Digwyddiadau arbennig ar y cyd (Ysgol Campws)<br>• Cyfle i gyfarfod pobl newydd | **4** | Crefydd:<br>• Fe allai'r niferoedd leihau | **1** |
| Cymuned:<br>• Dod â'r gymuned ynghyd | 1 | Cludiant:<br>• Cyllid<br>• Pellter/ffyrdd prysur<br>• Yr ysgol Gatholig agosaf i Saltney ydi Shotton sydd yn bell ac yn hir ar gyfer cludiant<br>• Yr angen am fwy o gludiant<br>• Fe allai'r safle newydd fod yn rhy bell ac allwch chi ddim rhoi plant 6 oed ar fws. Mae gan rieni swyddi ac efallai na fyddant yn gallu eu cymryd. Os allan nhw, mae'n rhyddhau mwy o allyriadau. | **5** |
| Staffio:<br>• Mae staff ar draws y ddau safle yn annog cynefindra<br>• Efallai y bydd athrawon yn symud i ysgolion sydd eu hangen nhw | 2 | | |

**Sut fyddech chi'n teimlo pe byddai ein hysgol i gau?**

| |
|---|
| Petai ysgolion yn cau, buaswn yn teimlo dan straen gan y byddai'n rhaid i mi wneud cais am ysgol newydd a chyfarfod â phobl a staff newydd.  Mae'r arholiadau'n agosáu hefyd. |
| Fe fydd cau ysgolion bob amser yn anodd gan ei fod yn achosi i athrawon golli eu swyddi, fe allai rhieni gael trafferth dod o hyd i ysgol newydd i'w plentyn ei fynychu. |

| |
|---|
| Ni fydd rhai yn mynd i rai ysgolion ac ni allant fynd i unrhyw le arall. |
| Pe byddai ysgolion yn cau, byddai'r nifer o fyfyrwyr yn cynyddu sy'n golygu y byddai cynhyrchiant y gwersi yn lleihau, pe byddai myfyrwyr yn symud i'n hysgol. |
| Safle/pennaeth ar y cyd - Mae Ysgol Maes Hyfryd yn gwneud hyn yn barod ar raddfa fach gyda'r canolbwynt chweched dosbarth yn Shotton a'r brif ysgol yn Y Fflint (mae'n gweithio'n dda). |
| Gofid gan y byddai ein hysgol yn cau ac fe allem gael ein gwahanu oddi wrth ein ffrindiau. |
| Yn flin ac yn ofidus gan fy mod ar fin cychwyn fy arholiadau TGAU, ac efallai na fydda' i'n gallu eu gwneud mewn ysgol arall. |
| Yn flin gan y bydd mwy o bobl yn dod i'n hysgol ni ac rydym ni'n orlawn yn barod. |

**Beth yr hoffem ei weld yn digwydd yn hytrach na hynny?**

| Ymatebion | |
|---|---|
| Saltney: Byddai uno 2 ysgol (1 Pennaeth ac 1 Corff Llywodraethu) ond ei gadw fel dau safle yn arbed arian cyhoeddus - dim adeilad newydd. Y rheswm yw am fod rhieni wedi dewis yr ysgol honno ac mae'n gweithredu'n iawn. | **1** |
| Uno 2 ysgol gynradd nad ydynt yn Gatholig er mwyn sicrhau y gall yr ysgol gynradd Gatholig aros ar agor er mwyn peidio â lleihau niferoedd crefydd. | **1** |

**Adran 2 - Meddyliau a Barn am Ysgolion Sir y Fflint yn gyffredinol**

| Cadarnhaol |
|---|
| Gweithgareddau allgyrsiol a llawer o chwaraeon.<br>Sesiynau adolygu ar ôl ysgol.<br>Amrywiaeth eang o glybiau (e.e. Tîm Iaith, Clwb Eco, Band, Côr, LHDTCRhA+, Llysgenhadon). |
| Staff cefnogol/athrawon da. |
| Mae cefnogaeth ar gyfer lles ar gael ac yn cael ei hysbysebu. |
| Iechyd meddwl da. |
| Amrywiaeth o bynciau. |
| Amseroedd y gwersi. |
| Mae gan ein Pennaeth Cerddoriaeth amrywiaeth eang o offerynnau cerdd ar gael. Mae o'n wych! |
| Mae cyngherddau'r ysgol yn dangos ystod eang o dalentau o gerddorfa'r ysgol i'r côr, o fand i unawdwyr a deuawdau. |
| Mae rhai athrawon yn wybodus iawn. |
| Digwyddiadau hwyliog iawn (e.e. Pride, Eisteddfod, cyngherddau). |
| Mae 5 gwers 1 awr yn well na gwersi hirach. |
| Mae'r darparwr bwyd newydd (Dolce) yn dda iawn. |

| Negyddol |
|---|
| Barn staff |

| |
|---|
| Ymddygiad disgyblion a’r ffordd y caiff ei ddelio.<br>Bwlio |
| Athrawon yn gadael a chael staff llanw yn eu lle/ ddim yn llenwi’r swydd. |
| Angen rhannu gofod. |
| Barn gan y bobl. |
| Datrysiadau dros dro. |
| Y rhyngrwyd. |
| Detholiad cyfyngedig o wersi. |
| Gwastraff (ynni/papur/bwyd/pecynnu). |
| Cyflogau gwael i athrawon. |
| Cyllideb isel i ddilyn prosiectau i wella cymuned yr ysgol e.e. eco-brosiectau. |

### Sylwadau Cyffredinol

| |
|---|
| Gadael i fyfyrwyr redeg clybiau ar ôl ysgol. |
| Faint o amser i gael ei dreulio yn cyfarfod â Chyngor yr Ysgol i fod yn hirach. |
| Gwneud gwersi’n fwy diddorol. |
| Gwella ystafelloedd dosbarth, e.e. cael gwared ar hen fyrddau/labordai gwyddoniaeth. |